# Y Bont

Rhifyn 71
ISSN 1464-4282

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS
www.clybiauplantcymru.org

Hydref 2019



## Yn y rhifyn hwn...

* Y Tymor Newydd
* Newyddion Rhanbarthol
* Diweddariad i Gyflogwyr
* Gweithgareddau'r Hydref

...a mwy!

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig
drwy Warrant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Yn gweithio mewn partneriaeth â:

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS

Rhifyn 71 Hydref 2019

## Yn y rhifyn hwn...

Llythyr gan y Prif Swyddog Gweithredol.........2
Y Tymor Newydd......................3
Ffocws ar Orllewin Cymru...4 & 5
Ffocws ar Ogledd Cymru....6 & 7
Ffocws ar Dde Ddwyrain Cymru.................................8 & 9
Hyfforddiant......................10
Pwysigrwydd Gofal Plant Gofrestredig............................11
Cymraeg.................................12
Syniadau Codi Arian...............13
Prosiectau........................14 & 15
Diweddariad i Gyflogwyr.16 & 17
Gweithgareddau'r Hydref........18

Ymwadiad:
Gwneir pob ymdrech gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod cynnwys ein newyddlen yn gywir Dylech nodi nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cymeradwyo unrhyw un o'r gwasanaethau, clybiau, gweithgareddau nac erthyglau, ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw weithred ar ran unrhyw berson neu grŵp o bobl sy'n darllen y newyddlen. Er gwybodaeth yn unig y dosberthir y newyddlen; heb gyfrifoldeb na rhwymedigaeth gyfreithiol.

Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260

Swyddfa Gofrestredig:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien,
Caerdydd. CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
Ffacs: 029 2074 1047
E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Y We: www.clybiauplantcymru.org

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Aelod o Glwb Gofal Plant All-Ysgol



Gobeithio i chi gael haf llawn hwyl a'ch bod wedi gallu cymryd rhan yn rhai o'n gweithgareddau ar gyfer Diwrnod Chwarae, neu'ch bod wedi elwa o gael gweithdy clwb wedi ei ariannu gan un o'r amryw o grantiau y bûm yn llwyddiannus yn ein cais amdanynt.

Dros yr haf rydym wedi bod yn brysur yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddatblygu'r systemau cofrestru ar-lein newydd; gallaf gadarnhau y bydd y system hon ar gael cyn y Nadolig, ac wedi gweithio ar arbrofi â'r system hon, ymddengys y bydd yn gryn welliant ar y fersiwn papur presennol.

Rydym hefyd wedi bod ynglŷn â datblygu'r **Gwasanaeth Hunanasesu (SASS)** ac yn cadarnhau y bydd gofyn i chi ei gwblhau yn **Ionawr 2020**. Bydd gennych 28 diwrnod i'w gwblhau, a gofynnir i chi roi gwybodaeth am eich adolygiad Ansawdd Gofal, eich capasiti, rhestrau aros, cynllunio'r gweithlu a'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Bydd cwblhau'r SASS hefyd yn cyflwyno hysbysiadau ar-lein a bydd unrhyw newidiadau a wneir yn ystod mewnbynnu'r SASS yn eich galluogi i wneud yr hysbysiadau a'r amrywiadau hyn wrth weithio drwy'r datganiad. Mae llawer iawn o waith ac o brofi wedi bod ynglŷn â'r systemau hyn, a chredwn y byddant o fudd i'r sector. Bydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn eich cefnogi i baratoi ar gyfer yr SASS gyda rhai gweithdai hydref, gwyliwch am fwy o wybodaeth i ddod yn fuan.

Roeddem yn edrych ymlaen yn eiddgar at weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i dreialu menter newydd yr Haf yma, gyda 3 Chlwb Gofal Plant Allysgol mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i'r clybiau hyn gynnig nifer o leoedd mewn Clybiau Gwyliau, wedi eu hariannu'n llawn, dros gyfnod yr haf i blant o deuluoedd ar incwm isel yn eu hardal. Bydd y lleoedd a fydd wedi eu hariannu yn galluogi teuluoedd, na fyddent fel arall yn gallu cyrchu'r gwasanaethau hyn, i elwa o ofal plant o ansawdd, wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a'i roi ar waith gan Weithwyr Chwarae cymwysedig.

Gan edrych bellach tuag at yr hydref, ac am ddigwyddiadau cyffrous sydd gennym i ddod! Byddwn yn cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau Rhwydwaith i gefnogi clybiau ar hyd a lled Cymru, â siaradwyr gwadd/hwyluswyr megis HMRC, AGC a mwy. Rydym hefyd yn trefnu diwrnod o hyfforddiant ar Bac Offer y Gweithiwr Chwarae ar gyfer y Gwanwyn. Yn olaf, ond yn sicr nid o ran pwysigrwydd, bydd "Digwyddiad Lansio" ym mhob rhanbarth unigol, wedi ei ariannu gan Asiantaeth Ofod y DU; byddwn yn cynnig cyfres o weithdai a chyfle i brofi 'planetariwm chwyth' drwy garedigrwydd Dark Sky Wales. Gwyliwch am ragor o wybodaeth drwy e-bost ac ar ein tudalen Facebook.

Rwy'n gobeithio eich bod wedi annog eich holl staff i lenwi ffurflen mynegi diddordeb i ymrestru ar un o'r nifer o gyrsiau Iaith Gymraeg i Weithwyr Chwarae sydd i'w cynnal o fis Medi ymlaen drwy Brosiect Camau, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Gobeithio eich bod hefyd wedi bod yn cyrchu ein hadnodd 'Welsh Now in a Minute' i gefnogi eich staff i gyflwyno Cymraeg sylfaenol bob-dydd i'ch lleoliad. Os yw'ch staff yn cyrchu'r hyfforddiant drwy brosiect Camau bydd modd i chi hefyd gael cefnogaeth yn eich lleoliad gan ein Swyddogion Iaith Gymraeg, i'ch helpu i wella'r Gymraeg yr ydych yn ei defnyddio.



Jane O'Toole, Prif Swyddog Gweithredol

## Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC)

Ar ddechrau'r flwyddyn, fe wnaethom ofyn ichi am eich safbwyntiau, fel darparwyr gofal plant a chwarae, ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Roedd hyn yn rhan o adolygiad Llywodraeth Cymru o'r SGC (a waned ddiwethaf yn 2016). Ystyriodd Llywodraeth Cymru yn ogystal yr adborth parhaus ar draws y sector gofal plant a chwarae, yn cynnwys Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru\) 2010; fe wnaeth ymgysylltu â chydweithwyr mewnol ac allanol eraill, mapio'r rheoliadau yn erbyn y safonau, edrych ar weinyddiaethau eraill yn y DU ac ystyried cynlluniau ansawdd. Mae'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys diogelu, archwiliad/AGC, uwchrifo cymarebau staffio, cymwysterau, Cymorth Cyntaf ansawdd a fformat/strwythur cyffredinol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

O ganlyniad lluniwyd adroddiad yn rhoi manylion argymhellion a chamu, ac fe'i gosodwyd ar Wefan Llywodraeth Cymru.

Gallwch gysylltu â Llywodraeth Cymru yma: ChildcareandPlayMailbox@gov.wales.

# Y Tymor Newydd

Mae tymor yr hydref yn adeg brysur, yn llawn dathliadau llawn cyffro megis Calan Gaeaf, Noson Tân Gwyllt a'r Nadolig, ond gall hefyd fod yn adeg pan fydd eich lleoliad gofal plant yn gweld sawl newid – plant yn symud ymlaen i'r Ysgol Uwchradd, plant yn newid grwpiau blwyddyn a phlant newydd yn mynychu'ch lleoliad. Gall mynychu lleoliad gofal plant neu chwarae am y tro cyntaf neu wedi 6 wythnos i ffwrdd fod yn wneud i blant o bob oed deimlo'n ansicr, ac mae gan Weithwyr Chwarae gyfrifoldeb i wneud yn sicr bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu. Dywed Erthygl 3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 'Rhaid i'r hyn sydd orau i'r plentyn fod uchaf o ran blaenoriaeth ym mhob penderfyniad a cham sy'n effeithio ar blant.' Dyma rai ffyrdd hwyliog, ond pwysig a allai helpu plant i ymgartrefu ar ddechrau tymor newydd:

- Dathlu 'Diwrnod Cenedlaethol y Clogyn' ar Dachwedd 12fed 2019. Dyma ddiwrnod a grëwyd gan Snap Happy er cof am Stan Lee, lluniwr comic Marvel. Dathlwch y diwrnod hwn drwy fod yn Arch-arwyr! Defnyddiwch hen flancedi a thyweli i'w haddurno a'u troi'n glogynnau, neu gwnewch arddangosfa wal hyd yn oed o'r plant fel arch-arwyr, fel awnaeth Clwb Ôl-ysgol Burlais yn Abertawe.
- Mae wythnos gwrth-fwlio yn digwydd Tachwedd 11eg -15fed 2019. Dyma gyfle da iawn i gynyddu ymwybyddiaeth yn eich lleoliad o ba mor ddifrifol yw bwlio, a'r hyn y gall plant ei wneud os ydynt yn cael eu bwlio,neu os ydynt yn gwybod am blentyn arall sy'n cael ei fwlio. Mae nifer fawr o adnoddau gwych ar wefan 'BullyingUK', www.bullying.co.uk/anti-bullying-week/anti-bullying-week-resources,sy'n cynnwys templed o fwgwd arch-arwr y gall plant ei ddylunio a'i wisgo i ddangos eu bod yn erbyn bwlio.
- Dathlu Diwrnod Caredigrwydd Byd-eang ar Dachwedd13eg 2019. Ffordd hwyliog o annog ymddygiad caredig yw chwarae 'Bingo Caredigrwydd'. Ysgrifennwch ar ffurf tabl 10 gweithred garedig a gofynnwch i'r plant eu croesi i ffwrdd bob tro y byddant yn cyflawni un ohonynt. Y cyntaf i groesi pob un i ffwrdd sy'n ennill! Gallai'r syniadau fod megis 'dal y drws ar agor i berson arall' neu 'wneud yn siŵr fod ffrind sy'n edrych yn drist neu'n unig yn iawn'. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd ac yn ffordd dda iawn o hyrwyddo caredigrwydd yn ddyddiol.
- Tachwedd 20fed yw'r Diwrnod Plant Byd-eang. Wediei sefydlu yn 1954 gan y Cenhedloedd Unedig, mae'r dathliadau'n digwydd bob blwyddyn i ddathlu a chynyddu ymwybyddiaeth o les a hawliau plant ac annog plant ar hyd a lle dy by di ddod at ei gilydd. Arwyddocâd Tachwedd 20fed yw bod cynulliad cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 1959 wedi mabwysiadu'r 'Datganiad ar Hawliau'r Plentyn' ac ar yr un dyddiad yn 1989 y 'Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn'. Mae i'r Confensiwn 54 erthygl, sy'n gosod yr holl hawliau sydd gan blant yn fyd-eang. Er enghraifft, Erthygl 31 yw'r hawl i ymlacio a chwarae, ac mae Erthygl 12 yn datagan bod gan bob plentyn yr hawl i fynegi eu safbwyntiau a'u teimladau ym mhob mater sy'n effeithio arnynt.
- Meddyliwch am sut y gallwch helpu plant i ddysgu am eu hawliau a'u deall, a sut y gallwch wreiddio'r hawliau hynny i mewn i'ch lleoliad. Gallech fod â wal syniadau lle y gall plant ysgrifennu'r pethau y maen nhw'n eu hoffi a'u hanhoffi, rhoi syniadau newydd ar fyrbrydau neu ba deganau a chyfarpar newydd y byddent yn eu hoffi. Gallech hefyd ofyn i'r plant ddatblygu eu 'Rheolau Clwb' lle byddant yn cytuno ymysg ei gilydd pa ymddygiad y dylid, neu na ddylid, ei ganiatáu yn ystod amser clwb. Mae hon yn ffordd wych i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol. Gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs gyflwyno 'gweithdy Ffrindiau Iach' a all helpu lleoliadau i ddatblygu system fydïo drwy weithgareddau dan arweiniad cyfoedion. Am fwy o wybodaeth am weithdai a'u costau, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol, neu ewch i'n gwefan, www.clybiauplantcymru.org.

Byddem yn falch iawn o glywed a ydych yn dathlu unrhyw un o'r dyddiau ymwybyddiaeth yma, felly cofiwch roi gwybod i ni, ac anfonwch eich lluniau fel y gallwn eu rhannu yn ein rhifyn nesaf o'r Bont. Anfonwch eich storïau i info@clybiauplantcymru.org





# Gorllewin Cymru

## Chwarae yn yr Awyr Agored yn Sir Benfro





Mae Clybiau Sir Benfro wedi bod yn mwynhau gweithgareddau chwarae amgylcheddol awyr-agored drwy ein gweithdai Parth Natur AM DDIM, diolch i grantiau gan Fagiau Cymorth Tesco. Roedd yr haul yn disgleirio wrth i'r plant chwilota yn y man y tu allan i'w Clybiau, gan chwilio am bethau naturiol a chasglu'r hynny daethant hyd iddynt i wneud eu coronau dail ardderchog. Yr hoff weithgareddau oedd coronau dail a thrionglau lliwio cotwm ecolegol ar gyfer fflagiau a baneri ac i'w hongian o ddolenni drysau - dim ond rhai o syniadau'r plant ar gyfer eu creadigaethau.

*"Doeddwn i ddim am stopio. Roeddwn i eisiau gwneud mwy", "Roedd yr hyfforddwr yn broffesiynol iawn ac yn wych gyda'r plant." "Rwy'n hyderus y byddwn yn defnyddio rhai o'r gweithgareddau eto";* rhai dyfyniadau gan y plant a'r Gweithwyr Chwarae.

Wrth i ni symud tuag at yr hydref, mae rhai gweithgareddau gwych ym Mharth Natur, megis Symudolion Dail Olaf, Casgliadau Enfys, Ysbrydion Coed, Celf Chwyth a llawer mwy. Gall aelodau lawrlwytho'r pecyn o ardal aelodau'r wefan. Rydym wedi datblygu'r pecyn ar y cyd â Pharciau Cenedlaethol Cymru ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr, ac mae rhai syniadau da iawn ynddo i alluogi'r plant ymchwilio i'w byd.



**Mae mwy o weithdai AM DDIM ar gael i Glybiau yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, diolch i grantiau gan Fagiau Cymorth Tesco ac Ymddiriedolaeth Elusennol Ray Gravell a'i Ffrindiau. Cysylltwch ag info-ww@clybiauplantcymru.org neu ffoniwch Swyddfa Ranbarthol Gorllewin Cymru ar 01269 831010.**

## Nen Hydrefol

Wrth i chi edrych i'r nen yn yr hydref, gwyliwch am ein **Prosiect Asiantaeth Ofod y DU yng Ngorllewin Cymru**. Bydd cyfleoedd i Glybiau fwynhau gweithdai am ddim ar thema'r gofod neu fynychu 'Lansiad' (dim chwarae ar eiriau!) rhanbarthol a chyfle i brofi 'planetariwm chwyth' dan nawdd Dark Sky Wales (sefydliad sy'n cynnig seryddiaeth ryngweithiol a gweithdai gwyddoniaeth i ysbrydoli meddyliau ifanc). Cyfunwch syniadau ar thema'r gofod â'r **Wythnos Ofod Fyd-eang ar Hydref 4ydd a Noson Tân Gwyllt ar Dachwedd 5ed**.

UK SPACE AGENCY

### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm Gorllewin Cymru
drwy ffonio: 01269 831010,
drwy ebost: info-ww@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Uned 2, Clos Gelliwerdd, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin. SA14 6RX

## Y Cynnig Gofal Plant

Ar draw Cymru mae Awdurdodau Lleol yn cynnig Cynlluniau Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant er mwyn i leoliadau gofal plant gynyddu'r nifer o leoedd y maent yn gallu eu cynnig neu i wella ansawdd y cyfleusterau y maent yn eu cynnig yn rhan o'r Cynnig. (Mae'r Cynnig Gofal Plant yn caniatáu i rieni sy'n gweithio, ac sydd â phlant 3 a 4 blwydd oed i gael cyfanswm ar y cyd o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant.)

Gellir dyfarnu ariannu trwy grant i leoliadau am amryw o weithiau a chyfarpar cyfalaf i'w galluogi i gynyddu'r nifer o leoedd y maent yn gallu eu cynnig, neu er mwyn gwella ansawdd y cyfleusterau y maent yn eu cynnig.

Mae rhai Clybiau Gofal Plant Allysgol sydd wedi ymuno â'r Cynnig Gofal Plant ar hyd a lled Cymru wedi profi cyfraddau uwch o bresenoldeb, gymaint felly fel eu bod yn weithredol i'r eithaf, heb fod yn ddibynnol bellach ar grantiau cynaliadwyedd, ac mewn rhai achosion maent hyd yn oed yn ymestyn eu cofrestriad ag AGC a'u hadeiladau.

I wybod mwy am y grantiau sydd ar gael yn eich ardal chi, cysylltwch â Swyddog Gwybodaeth eich Awdurdod Lleol.

Cynnig Gofal Plant Cymru — The Childcare Offer for Wales
Addysg gynnar a gofal • Early education and care

## Gweithwyr Chwarae Abertawe'n Dathlu Llwyddiant yn eu Cymwysterau

Llongyfarchiadau mawr i Weithwyr Chwarae Abertawe sy'n gweithio yng Nghlwb Amlapiol Penclawdd, Clwb Amlapiol Hendrefoilan a Childsplay at Grange ar gyflawni eu Prentisiaeth Lefel 3 mewn cymhwyster Gwaith Chwarae. Golygodd lawer iawn o waith cael ac ymrwymiad i ennill y cymhwyster a dymuna Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs bob lwc i chi yn y dyfodol!



## Hwyl Haf

Croeso mawr i 3 Glwb Gwyliau newydd yn Sir Gaerfyrddin sy'n cael eu darparu ar draws 3 safle gan Carers Trust Crossroads Sir Gar – gobeithio y cawsoch haf llawn llwyddiant a hwyl.



# Llw Llysiau Abertawe

Cynhaliodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe cyfres o ddigwyddiadau yn Abertawe i lansio'r Canllawiau Bwyd a Maeth i Leoliadau Gofal Plant newydd, Arweiniad ar yr Arferion Gorau. Rhyddhawyd y canllawiau newydd hyn gan Lywodraeth Cymru ddiwedd y llynedd, a gellir dod o hyd iddynt ar-lein ar https://gov.wales/food-and-nutrition-childcare-settings-full-guidance. Rhoddwyd canllawiau i leoliadau a fynychodd y digwyddiadau lansio ar sut i ddefnyddio'r pecyn, a chawsant y cyfle i drafod rhai o'r canllawiau a ddarparwyd. Gofynnwyd i bob un a oedd yn bresennol i wneud "Llw Llysiau" ac edrych ar 2 beth y gallent eu gwneud i wella dewisiadau iach yn eu lleoliad. Yna gwnaeth Anna Parton, y Deietegydd a oedd yn arwain y digwyddiadau, gysylltu â lleoliadau fis yn ddiweddarach i weld a oeddent wedi gweithredu yn ôl eu llw a rhoi yn eu lle y newidiadau a ddymunent. Ymhlith rhai o'r syniadau oedd bod yn rhan o'r Wobr Byrbryd Iach neu wirio'r swm o siwgr a halen a oedd yn y byrbrydau a ddarparwyd a cheisio eu cyfnewid am bethau eraill lle'r oedd hynny'n angenrheidiol.

Ydych chi wedi ystyried gwneud 'Llw Llysiau' yn eich lleoliad? Gallech ofyn i'r plant beth a ellir ei wneud i wneud eu clwb yn lleoliad iachach a dewis 2 syniad i ymrwymo iddynt. Dyma ambell i syniad i roi cychwyn i chi:

- Dŵr yn lle diod ffrwyth.
- Cyfnewid cacen ben-blwydd am ddewis iachach megis salad ffrwythau mawr
- Ailedrych ar faint y dognau o fyrbrydau a phrydau yng ngoleuni'r canllawiau
- Gwiriwch faint o siwgr sydd mewn grawnfwyd a rhowch ddewis arall i'w gynnig – edrychwch am lai na 15g o siwgr am bob 100g.



Peidiwch ag anghofio, mae lleoliad iach yn fwy na ddim ond y byrbrydau yr ydych yn eu darparu, mae ynghylch gwneud yn siŵr gof y plant yn gorfforol egnïol hefyd. Ceisiwch ychwanegu at lw eich lleoliad y rhoddir i blant y cyfle i chwarae y tu allan bob dydd ac y bydd eu hamser o flaen sgrin yn gyfyngedig, neu wneud y lleoliad yn un di-sgrîn!

**Cofiwch adael i ni wybod os yw'ch lleoliad yn gwneud 'Llw Llysiau - byddai'n dda iawn gennym glywed eich syniadau!**

# Cwrdd â'r Tîm!



**Enw:** Alex Fudge

**Teitl eich Swydd:** Rheolwr Rhanbarthol Gorllewin Cymru

**Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** 19 o flynyddoedd

**Beth yw'ch hoff atgof fel plentyn?** Chwarae y tu allan, dringo coed, casglu mwyar duon a chnau, chwarae cwato, padlo mewn afonydd, unrhyw fath o chwaraeon a gwersylla.

**Beth ydych chi'n hoffi ei wneud yn eich amser sbâr?** Eto fyth, chwarae y tu allan ar dir sych ac yn y môr!

**Beth yw eich hoff raglen deledu?** Ers geni fy 2 o blant, dwi'n tueddu i syrthio i gysgu, ond mi fydda i yn mwynhau tipyn o Poldark weithiau.

**Pe gallech gael arch-bŵer, beth fyddai a pham?** Y gallu i deithio mewn amser, ymestyn darnau dymunol bywyd a chyflymu'r rhai annymunol!

**Beth fyddai pobl yn synnu o'i glywed amdanoch chi?** Ro'n i wrth fy modd yn gweithio ar fferm.

**Beth yw eich hoff ffilm a pham?** Fe wnes fwynhau yn fawr 'The New World': sef stori Pocahontas, Last of the Mohicans a Slumdog Millionaire.



**Enw:** Naomi Evans

**Teitl eich swydd:** Rheolwr Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru

**Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** Dros 8 mlynedd.

**Beth yw eich hoff atgof o'ch plentyndod?** Ro'n i'n ddigon ffodus i fynd ar rai wyliau rhyfeddol gyda'm teulu - fe wnaethom deithio o gwmpas Seland Newydd mewn fan wersylla pan oeddwn i'n tua 9, ac yna yn fy arddegau cynnar, teithio o gwmpas Canada mewn fan wersylla. Ddim yn ddelfrydol i rywun sy'n sâl wrth deithio (!) ond profiadau a chofion rhyfeddol!

**Beth ydych chi'n hoff o'i wneud yn eich amser sbâr?** Rwy'n hoff o wneud tripiau dydd gyda'm plant, yn enwedig tripiau i'r traeth Rwy'n hoff o dreulio amser gyda ffrindiau a gwneud karaoke (â thropyn bach i deimlo'n ddewr!)

**Beth yw'ch hoff raglen deledu?** The Handmaid's Tale / Killing Eve / Game of Thrones

**Pe gallech gael arch-bŵer, beth fyddai a pham?** Y gallu i atal amser fel y gallwn gael rhywfaint o amser ychwanegol (neu drip i'r Maldives heb deimlo'n euog am golli amser gyda'r plant!)

**Beth fyddai pobl yn synnu o'i glywed amdanoch chi**? Fi yw 'mwmiwr' y swyddfa – dwi'n mwmian tonau cwbl ddi-gyswllt heb sylweddolil mod i'n gwneud! Mae'n siŵr mod i'n dreth ar amynedd pawb!! Does ond eisiau i rywun ddweud gair/linell o gân, a bydd yn fy mhen yn syth.

**Oes gennych chi unrhyw ffobias? Beth ydyn nhw?** Corynnod! Mae rhai o'm cydweithwyr tu hwnt o gas yn Swyddfa Caerdydd yn cael pleser mawr yn dangos lluniau ohonynt i mi, neu guddio rhai ffug ar fy nesg!



**Enw:** Nicole Lovatt

**Teitl y Swydd:** Rheolwr Rhanbarthol Gogledd Cymru

**Ers faint ydych wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** Ers mis Medi 2008

**Beth yw'ch hoff atgof fel plentyn?** Helpu fy nhad i drwsio ceir.

**Beth ydych chi'n hoff o'i wneud yn eich amser sbâr? Amser sbâr? Beth yw hynny?** Os oes gen i unrhyw amser sbâr, dwi'n hoff o naill ai darllen, lluniadu neu baentio.

**Os gallech gael arch-bŵer beth fyddai a pham?** Mmmm, arch-bŵer – y gallu i ddeuleoli, byddai'n gwneud rheoli amser gymaint yn haws ac yn cwtogi ar allyriadau carbon.

**Os byddech wedi'ch gadael ar ynys bellennig a'r modd i gael un eitem foethus, beth fyddai a pham? (Dim ffôn symudol.)**. Dwi'n dueddol o fod yn rhy ymarferol i fod angen moethusrwydd, felly cyn belled â bod gen i gyllell finiog fe fyddwn i'n hapus, gallwn o leiaf adeiladu cysgod.

**Beth fyddai pobl yn synnu o'i wybod amdanoch?** Ddim yn siŵr, gadewch i mi weld … Dwi'n dysgu pobl i saethu â bwa, aci wedi ennill cymwysterau yn y gorffennol i danio reiffl L98a2 (mae'n debyg iawn i'r hyn y mae Lluoedd Arfog Prydain yn eu defnyddio).

**Oes gennych unrhyw ffobias? Beth ydyn nhw?** Na, dim ffobias, ond yr un ofn sydd gen i yw na fydda i'n cwblhau pob peth - mae bywyd yn rhy fyr (neu, fel mae fy merch yn fy atgoffa i - byw yw'r peth hiraf y byddwch fyth yn gorfod ei wneud).



# Gogledd Cymru

## Peilot Gwaith Chwarae Gwyliau'r Haf

Eleni cefnogwyd Llywodraeth Cymru a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i dreialu cynllun Peilot Gwaith Chwarae i fynd i'r afael â Gwyliau Llwglyd i blant yng Nghymru. Nod y peilotiaid hyn yw dangos y gall Clybiau Gofal Plant Allysgol gynnig ateb i Wyliau Llwglyd a sicrhau bod yr ariannu, os caiff ei barhau, yn cael ei ddosbarthu i Glybiau Gofal Plant Allysgol, a'i fod yn dangos nad oes angen am glybiau "Gwyliau Llwglyd na Bwyd a Hwyl" lle mae (neu lle y bydd) Clwb Gofal Plant Allysgol.

Yng Nghonwy, fe wnaeth Clwb Y Morfa, Abergele sef Clwb Brecwast, Ôl-ysgol a Gwyliau, dreialu'r cynllun gyda chymorth Esgobaeth Llanelwy.

Rhoddwyd arian i Glwb Y Morfa er mwyn iddynt gynnig 8 lle yn ddi-dâl i deuluoedd a fyddai'n cael budd ohonynt dros yr haf. Roedd y plant a ariannwyd yn cael mynediad at yr un ddarpariaeth chwarae, y gweithgareddau a drefnwyd gan y Gweithwyr Chwarae cymwysedig a thri phryd y dydd, fel pob plentyn arall yn y lleoliad.

Dywedod Dolly Jones, Rheolwr Clwb y Morfa, "Fel rheolwr y Clwb rwy'n hynod falch, ac yn teimlo'n freintiedig o allu cynnig i'r plant gyfle chwarae cyfarwydd a chyfoethog, a fydd yn cynnwys eu cyfoedion, a hefyd gofal gan staff cymwysedig."

Rydym yn edrych ymlaen at glywed am yr hwyl a gafwyd dros yr haf, a'r effaith gadarnhaol y mae'r prosiect wedi ei gael ar blant a theuluoedd Ysgol Glan Morfa.

## Clwb Newydd yng Ngwynedd

Hoffai Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs estyn croeso cynnes i aelod-Glwb newydd yng Ngwynedd: Clwb Plant Miri Mawr. Y mae'n Glwb Ôl-ysgol yn Llanllyfni sy'n cael ei redeg yn breifat. Eu nod yw agor ym mis Medi, a chynnig darpariaeth ddwyieithog, 16-lle. Edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw yn y misoedd i ddod. Pob Lwc!

### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm Gogledd Cymru drwy ffonio: 01492 536318,
drwy ebost: info-nw@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: 19, Princes Drive,
Bae Colwyn. LL29 8HT

**Syniadau i arbed arian** Diolch i chi, Beryl Blackmore, sy'n rhedeg Clwb Ôl-ysgol yn Wrecsam, am y syniad ardderchog yma am sut y gall eich clwb arbed arian drwy ddarparu tameidiau.

*"Helo, meddwl y baswn i'n rhannu'n ffotograffau hyn yn dangos y bwyd yr wy'n ei gasglu ddwywaith yr wythnos o'n Co-op lleol. Gallaf godi'r ffrwyth, y llysiau, cacenni a bara, oll yn dal yn ffres (felly gellir rhewi'r bara yn enwedig). Rwy'n ei gynnig i'r Cylchoedd Chwarae a'r Clwb Cinio lleol; mae'r arbedion o ran arian yn wych, a hyd yn oed yn well yw cael llawer o ddanteithion a llai o wastraff. Ewch i gael golwg ar wefan y Co-op i weld a allwch baru â siop leol ar ran eich clwb."*



## Prosiect Santander

Roedd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn llwyddiannus yn eu cais am y grant, the Discovery Grant, o Sefydliad Santander; gweler ein Tudalen Prosiectau am fwy o wybodaeth.

Drwy'r ariannu hwn drwy grant roedd modd i ni ddatblygu gweithdy newydd, wedi ei anelu at blant mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol a fyddai'n ystyried arian, sut i'w ennill ei gynilo, a chyllido ar gyfer digwyddiad / prosiect.

Gwahoddwyd Clybiau Gofal Plant Allysgol i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i rannu â ni eu syniadau ar godi arian, sut y byddent yn codi arian i wella ansawdd y profiad o chwarae i'r plant yn eu clwb, ac ar gyfer pa bethau y byddant yn defnyddio'r arian. Roedd 8 clwb buddugol, 3 yng Ngogledd Cymru: TEMPS yn Wrecsam ac Annex Alive ac Ollie's, y ddau yn Sir y Fflint.

Dyfarnwyd gwobr ariannol o £50 yr un i bob lleoliad. Esboniodd Tracey Bargh, Swyddog Hyfforddi Gogledd Cymru i'r plant yn ystod eu gweithdy fod angen iddynt fod yn rheolwyr prosiect ar eu syniad codi arian er mwyn ei wireddu a gwneud elw.

**TEMPS** Eu penderfyniad nhw oedd defnyddio'r arian i gael stondin felysion a diodydd ar ddiwrnod mabolgampau'r ysgol; bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at 2 elusen o ddewis y plant, sef Sefydliad y Galon ym Mhrydain ac Ymchwil i Ganser mewn Plentyndod.

**Annex Alive** Eu cynllun nhw oedd gwerthu losin yn y clwb, yr holl arian i fynd tuag at X-box a chyfarpar awyr agored. Mae'r clwb eisoes wedi dweud eu bod yn mynd i ddal i godi arian.

**Clwb Ollie** Fe wnaethon nhw benderfynu y byddai unrhyw arian a godir yn cael ei wario ar gemau a chonsolau Nintendo Switch. Y syniad am brosiect oedd golchi ceir. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae Clwb Ollie, sef Ollie's Club, wedi cynnal eu prosiect.



Cynorthwywyd y plant i drefnu'r digwyddiad a chreu posteri, i ychwanegu darn bychan at eu newyddlen ysgol, prisio'r nwyddau, llunio rhestr siopa, mynd i siopa, gofyn caniatâd pennaeth yr ysgol a chreu eu rheolau eu hun am y diwrnod.

Roedd yr olchfa geir yn llwyddiant mawr gyda'r rhieni, pwyllgor Clwb Ollie, eu staff a nifer o'r plant a ddaeth yno i gefnogi'r digwyddiad, yn cynnwys Swyddog Hyfforddi Gogledd Cymru, Tracey Bargh. Cadwodd y glaw i ffwrdd ac fe wnaethant lwyddo i olchi dros 75 o geir. Gweithiodd y plant yn galed ar y ceir drwy'r dydd ac roedd gan Tracey feddwl mawr o'u penderfyniad a'u gwaith caled. Hefyd, fe gynhaliodd y Clwb hefyd raffl a gwerthu tameidiau. Fe wnaeth y Cadeirydd, Jason Trevor, noddi'r digwyddiad drwy roi i'r clwb eu perarogldyddion Ollie's Club; un i bob car a olchwyd.

Dydd Sadwrn, Mehefin 15fed oedd y diwrnod y cynhaliwyd y codi arian, ac o siarad â'r plant, y staff a'r gwirfoddolwyr, gwelwyd bod pawb wedi mwynhau'r diwrnod a bu'n llwyddiant ysgubol. Roedd yr holl brofiad wrth fodd y plant, y cyflwyniad cyntaf yn y gystadleuaeth, y gweithdy, y trefnu, ac yn olaf y digwyddiad. Cafwyd adborth da iawn gan y rhieni a'r plant, a rhai yn gofyn, "a gawn ni olchi ceir yr wythnos nesa"? a "beth am wneud hyn eto, mae wedi bod yn andros o hwyl".

Dywedodd Lesley Davies, rheolwr y Clwb, wrthym y byddent yn bendant yn ystyried digwyddiad arall i godi arian yn y dyfodol, gan fod y plant bellach â'r sgiliau i drefnu digwyddiadau eu hunain. Mae Lesley'n hynod falch o'r holl blant a'r swm y maen nhw wedi ei godi. Fe wnaethant godi swm rhyfeddol ar y diwrnod, £463.61, ac maent wedi derbyn rhywfaint o roddion ers hynny.

Santander
FOUNDATION




## Clwb Rhagorol

Mae clwb Little Lambs Fun Club yn Sir Ddinbych wedi cael adborth ardderchog yn ddiweddar ar eu harchwiliad AGC. Barnwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru fod y Clwb yn "**rhagorol**" yn ei Reolaeth o Lesiant, Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac yn "dda" o ran yr Amgylchedd a Gofal a Datblygiad.

Yn ôl yr adroddiad (AGC): "Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yn llwyr yn y gwasanaeth. Maen nhw'n cael eu cymell yn gryf i wneud dewisiadau a gallant gyfrannu eu barn a'u hoffterau yn hynod hyderus."

Tipyn o gamp; Da iawn, Little Lambs Fun Club!

## Cronfa Gymunedol Estyniad Burbo Bank

Yn rhan o Gronfa Gymunedol Estyniad Burbo Bank, bu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn ddigon ffodus i gael ei ariannu ar gyfer y prosiect newydd, cyffrous hwn. Mae'r prosiect wedi ei rannu'n ddau gam, y cyntaf fydd cyflenwi ein gweithdy Ynni Adnewyddadwy i 3 Chlwb Gofal Plant Allysgol. Caiff y plant sy'n mynychu'r gweithdai eu gwahodd i ofyn cwestiynau, a chaiff bob un eu dewis i ddatblygu gweithgareddau/arbrofion newydd. Yr ail gam fydd treialu'r gweithgareddau sydd newydd eu datblygu yn y Clybiau Gofal Plant Allysgol gan y plant a ofynnodd y cwestiynau.





Mae Cath Smith, un o'n Swyddogion Hyfforddi yng Ngogledd Cymru wedi cyflenwi'r cyntaf o'r gweithdai Ynni Adnewyddadwy i Glwb Hwyr Mornant yn Sir y Fflint. Dyfeisiwyd y gweithdy yma i roi syniadau ymarferol ac adnoddau i Weithwyr Chwarae a phlant er mwyn iddynt allu chwilota i Ynni Adnewyddol drwy weithgareddau chwarae, ac i ymgysylltu plant yn y pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg). Roedd rhai o'r gweithgareddau a wnaed yn ystod y Gweithdy yn cynnwys defnyddio balwnau fel rocedi ac fel "tanwydd" i wneud i'r car symud. Roedd modd i'r plant wneud cylchred trydanol gan ddefnyddio taten i bweru cloc larwm. Gwnaeth y plant hefyd

Burbo Bank Extension Community Fund

gymryd rhan mewn gweithgaredd yn cynnwys defnyddio pwmp troed i wneud roced dd6wr. Fe wnaeth y staff a'r plant fwynha'r gweithdy yn fawr.

Gwyliwch y gwagle yma am ddiweddariadau pellach.



## Hyfforddiant am Ddim i aelodau yng Nghonwy

Mae cynllun hyfforddi blynyddol Sir Conwy yn barod i gymryd archebion am le; mae ein gweithdai i Weithwyr Chwarae wedi eu teilwrio i fodloni ceisiadau ac anghenion Clybiau Gofal Plant Allysgol yng Nghonwy er mwyn i'ch staff eu mwynhau. Mae gennym gelf a chrefft, sgiliau ymddygiad heriol a beth i'w wneud â rhannau rhydd.

Mae'r cyrsiau yma'n dechrau o fis Medi 2019. Os hoffech chi neu'ch staff archebu lle ar unrhyw rai o'n cyrsiau ni, yna draw â chi i'n gwefan, www.clybiauplantcymru.org ac archebwch le yn awr.

Cynhelir yr holl gyrsiau yn ein Hystafell Hyfforddi ym Mae Colwyn, yn 19 Princes Drive, Bae Colwyn Bay, Conwy, LL29 8HT a bydd paneidiau a bisgedi i'w cael.

**Chwarae'n Rhydd**
Dydd Mawrth Hydref 22ain 2019,
18.30 – 20.30

**Chwarae Crefftus**
Dydd Mawrth Tachwedd 12fed 2019,
18.30 – 20.30

**Chwarae Heriol**
Dydd Mawrth Ionawr 21ain 2020,
18.30 – 20.30

**Streips Tebyg, Sawl Ffordd**
Dydd Mawrth Chwefror 18fed 2020,
18.30 – 20.30

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach ar unrhyw un o'r cyrsiau sydd ar gael, cysylltwch â Rachel Tustin, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Conwy 01492 536318 neu ar info-nw@clybiauplantcymru.org

## Ennill Cofrestriad

Llongyfarchiadau i Glwb Clyd, Gwynedd ar lwyddo i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi ac at y cyfleoedd newydd sy'n dod yn sgil cofrestru ag AGC!

### Meithrinfa ar y Rhestr Fer am Ddyfarniad

Hoffem longyfarch yn fawr Feithrinfa Little Lambs ym Mae Cinmel, Conwy ar gyrraedd rhestr fer Dyfarniad Cefnogi Llesiant staff, Y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol (NDNA).

Mae Meithrinfa Ddydd Little Lambs yn gofalu am blant o 0 - 12 mlwydd oed ac ar agor 6 diwrnod yr wythnos. Er mwyn i'r feithrinfa ddod gyrraedd safle'n goreuon, mae rhieni wedi ysgrifennu tystlythyrau yn llawn clod, sydd wedi profi gymaint o ryfeddod a gwerthfawrogiad sydd i waith Sam a'i staff yn y feithrinfa.

Mae Sam Maitland-Price, Perchennog Meithrinfa Little Lambs, wedi esbonio: "Mae cael ein cydnabod - ni'r lleoliad bach yma ym Mae Cinmel, mae'n rhyfeddol, ac yn dangos beth rydym ni wedi ei gyflawni i'r gwaith. Rwy'n ei fyw, ei gysgu ac yn ei anadlu. Dyma'r cyfan yr ydw i wedi eisiau ei wneud ers roeddwn i'n 16. Mae gofyn i rieni ysgrifennu eu sylwadau a'u barn, ac chawsom eu gorlethu ganddynt. Roedd yn rhaid i ni anfon tystiolaeth i mewn i gefnogi ein staff. Roeddem yn cystadlu yn erbyn pedair meithrinfa arall yn y DU ond ni oedd yr unig rai yng Nghymru i gyrraedd y rhestr fer." Pob lwc ichi, Little Lambs!



# De Ddwyrain Cymru

### Amser i ddathlu ym Mlaenau Gwent

Ar Ddydd Gwener, Gorffennaf 12fed gwestyodd Tîm Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar ,Gofal Plant a Chwarae Blaenau Gwent ddigwyddiad wobrwyo yn y Swyddfeydd Cyffredinol yng Nglyn Ebwy. Rhoddodd y seremoni wobrwyo gyfle ardderchog i'r sector ddod at ei gilydd a dathlu'r gofal plant o ansawdd rhyfeddol o uchel ynghyd â'r cyfleoedd chwarae a oedd yn cael eu darparu yn y sir.

I ddechrau'r noson dyma gerdded i mewn ar garped coch a chael gwydraid o siampên, a bwffe i ddilyn, yn y neuadd a addurnwyd mor goeth. Rhoddodd Tîm Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae gyflwyniad ysbrydoledig ar ddatblygiad y sector ym Mlaenau Gwent a'r hyn a oedd i ddod yn y dyfodol.

Yna cydnabuwyd ymroddiad, angerdd ac agwedd broffesiynol unigolion a lleoliadau drwy gyflwyno'r gwobrau. Roedd y Tîm Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae wedi gofyn am enwebiadau ar draws y sector a chyflwynwyd un ar ddeg gwobr ar y noson. Yn eu plith yr oedd Lleoliad Allysgol y Flwyddyn, a llongyfarchiadau i Glwb Hip Hop Star o Frynmawr a enillodd y wobr hon a gyflwynwyd iddynt gan Jane Weale o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Daeth llawer ynghyd i'r noson a da oedd gweld cymaint o Ddarparwyr Gofal Plant yn dathlu ac yn llongyfarch ei gilydd. Da iawn, bawb ohonoch!

## @Play wedi llwyddo!



Clwb Gwyliau Ôl-ysgol anghofrestredig ym Merthyr yw @ Play, sydd wedi bod yn agored ers 2012. Wedi'u cefnogi drwy adegau heriol, mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gwybod pa mor wych yw'r lleoliad hwn ac am y profiadau chwarae anhygoel y maen nhw'n eu cynnig i'r plant yn eu gofal.

Wedi dod yn rhan o'r dyfarniad, Ansawdd i Bawb, cafodd @Play eu harchwiliad yn ddiweddar. Mae'r cynllun hwn yn asesiad o ansawdd y gofal plant, ac wedi ei ddyfeisio i adnabod arferion da. Gofynnir i leoliadau graffu ar eu cryfderau a'u gwendidau, gan ddangos sut y maent yn cyflawni, yn cynnal ac yn gwella ansawdd y gofal a roddir i'r plant.

Yn dilyn eu harchwiliad, fe wnaethant dderbyn lefel Pass Plus, wedi cyrraedd y lefel yma mewn 7 maes, a lefel Clod Uchel mewn 4 maes. Yng ngeiriau'r dyfarnwyr:

*"Gall teuluoedd fod yn hyderus fod eu plentyn yn cael ei gadw'n ddiogel yn @Play Kids Club, lle mae'r staff yn fedrus ac yn gosod y plant wrth galon eu gofal. Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau mewn mannau chwarae amrywiol ac yn cymryd rhan arweiniol yn eu chwarae eu hunain. Cefnogir y plant gan staff gofalgar a gwybodus, sy'n annog y plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch eu chwarae. Mae'r lleoliad yn annog staff, rhieni, plant a rhanddeiliaid i gynorthwyo i adolygu ac i ddal i wella'r gwasanaeth. Mae'r teuluoedd yn elwa o systemau da i gefnogi eu plant, sy'n cynnwys gweithio ar y cyd â staff a gweithwyr proffesiynol allanol."*



Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wrth eu bodd fod dyfarnwyr Ansawdd i Bawb wedi cydnabod y cyfleoedd gwych i chwarae y mae @Play yn eu cynnig i blant yn eu cymuned. Gwaith gwych @Play - daliwch ati!

## Hwyl gyda Chebabs Ffrwyth



Mae'r plant yn Jaks, Rhondda Cynon Taf, wedi bod yn awyddus i wneud eu byrbrydau eu hunain, ac mae'r staff wedi bod eisiau gwneud opsiynau byrbrydau yn fwy iach, felly pa ffordd well na thrwy wneud cebabs ffrwyth! Cafodd y plant oll amser da dros ben ac fe wnaethant fwynhau sicrhau mai eu byrbryd nhw oedd y mwyaf lliwgar. Pwy fase'n meddwl y gallai bod yn iach fod yn gymaint o hwyl!

### Angen cysylltu â ni?



Cewch gysylltu â Thîm De Ddwyrain Cymru
drwy ffonio: 029 2074 1000,
drwy ebost: info@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf,
Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW


## Dwi'n Caru fy Mhac Offer Gweithiwr Chwarae!

Aeth Kaid Webley o Yellow Bunnies Daycare i sesiwn hyfforddi Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Playworkers ar y Pac Offer dair blynedd yn ôl. Mae i'r hyfforddiant hwn ar y Pac Offer gyfres o gyrsiau, ar Chwarae Allan gyda'r Elfennau; Adeiladu Deniau, Cael Risg yn Iawn a Chwarae'n Rhydd. Cafodd y gweithdai hyn i Weithwyr Chwarae eu hariannu gan Gyngor Dinas Casnewydd ac roedd cyfanswm o 10 ohonynt. Am bob gweithdy a fynychwyd, cafodd y Gweithiwr Chwarae fathodyn a ffedog ('Pac Offer') i lynu'r bathodynnau ato.

Mae Kaid yn cofio'r hyfforddi ac yn dal i ddefnyddio'r sgiliau a enillwyd yn ei lleoliad. Mae'n defnyddio yn arbennig y sgiliau a enillwyd o Chwarae Allan gyda'r Elfennau, ac yn defnyddio canhwyllau i dostio malws gyda'r plant iau. Mae hefyd yn defnyddio'r hyfforddi a gafodd ar rannau rhydd o'r gweithdy Chwarae'n Rhydd. Mae'r pant yn arbennig o hoffo fodeli sborion. Maent yn defnyddio'r sborion i wisgo i fyny a chwarae gemau. Fe wnaeth y gweithdy Cael Risg yn iawn herio agwedd Kaid tuag at risg a bellach mae gan y plant yn ei lleoliad fwy o gyfle i fwynhau chwarae llawn risg.

Dywedodd Kaid "Roedd yr hyfforddiant yn wirioneddol fuddiol i'r plant yn y lleoliad. Gwnaeth tri ohonom yr hyfforddiant a chymerodd bob un ohonom rywbeth gwahanol oddi wrtho. Golygodd hyn y gallem bob un gyfrannu rhywbeth wrth gynllunio gweithgareddau gyda'r plant. Byddwn yn ei argymell i'm holl staff achos er eu bod nhw wedi hyfforddi fel Gweithwyr Chwarae, maen nhw angen syniadau ar beth i'w wneud yn y clwb".



Mae Kaid wrth ei bodd â'i Phac Offer ac wedi parhau i'w ddefnyddio dros amser. Mae'n ei gael yn ddefnyddiol iawn gan i'r pocedi fod yn lle delfrydol i gadw pethau fel beiros a hancesi papur!

Am gyfnod cyfyngedig o amser, bydd pob Gweithiwr Chwarae sy'n mynychu un o'n Gweithdy ar y Gweithiwr Chwarae Ymarferol yn cael Pac Offer a bathodyn i gyd-fynd ag ef, i'w ddefnyddio yn eu lleoliadau eu hunain. Cadwch lygad ar adran Hyfforddi ein gwefan am fanylion hyfforddi yn agos i chi!



## Busy Bees ar yr awyr!

Drwy gyfrwng ein prosiect Santander gwefreiddiol, roedd modd i Busy Bees greu eu perfformiad radio byw eu hunain 'BBFM' er mwyn i'r Teuluoedd a'u Ffrindiau ei fwynhau. Nod y prosiect oedd cael y plant i ddeall bod arian yn cyfrif. Fe wnaethant ddysgu am elw a cholled yn ogystal â phwysigrwydd cyllidebu. Cawsant eu gweithdy am ddim gydag un o'n Swyddogion Hyfforddi profiadol ac yna aeth y plant yn syth ati i gynllunio gwneud arian. Aethant o gwmpas yr holl fusnesau lleol a gofyn iddynt a hoffent noddi'u sioe, ac a oeddent am iddynt eu hysbysebu ar eu rhaglen ynghyd â hysbysebu noddedig drwy gydol y sioe. Fe wnaethant dderbyn prisiau raffl yn ogystal â rhoddion o losin i'r plant eu mwynhau tra'r oeddent wrthi'n brysur yn cynllunio. Fe wnaethant weithio ar brisiau tocynnau i'r noson yn ogystal ag ysgrifennu'r sgript a dylunio'r gwisgoedd.

Daeth y diwrnod mawr o'r diwedd, ac nid heb rywfaint o ddrama, nodweddiadol o'r byd difyrru; bu un neu ddau o newidiadau munud olaf i'r cast, ond fyddai neb wedi dyfalu hynny. Roedd y stafell yn llawn ffrindiau a theuluoedd a wnaeth brynu tocyn i'r sioe, a phawb yn edrych ymlaen at weld beth oedd yn eu disgwyl!

Roedd digon o chwerthin o blith y gynulleidfa, props ardderchog a rhoddwyd ymdrech 100% gan bob un o'r plant. Roed yn sioe wirioneddol hyfryd. Da iawn chi, Busy Bees!

### Cynorthwyo Fforddiadwyedd Gofal-Plant Gwyliau – Peilot Gwyliau Llwglyd

Mae Llywodraeth Cymru a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi treialu cynllun mewn 3 Chlwb Gofal Plant Allysgol Cofrestredig mewn gwahanol rannau o Gymru yr haf hwn er mwyn mynd i'r afael â Gwyliau Llwglyd, mynediad i ofal plant o ansawdd a fforddiadwyedd gofal-plant gwyliau. Yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru, cynhaliodd Clwb Allysgol Corneli Sger beilot yn cynnig 8 lle ar sail 'lle a gynorthwyir' am 6 wythnos gwyliau'r haf.

Cynigiwyd y lleoedd yn rhad ac am ddim i deuluoedd lleol cymwys, a'r holl blant yn y lleoliad (rhai sy'n talu ffi a'r rhai sy'n eu cyrchu drwy'r cynllun hwn) yn cael prydau iach a phoeth yn ddyddiol, ac yn cymryd rhan mewn profiadau chwarae o ansawdd er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau, bywydau llawn egni, datblygu sgiliau cymdeithasol a galluogi plant i gael **hwyl**!

Ein gobaith yw y bydd y peilot hwn yn dyst o'r ffaith y gellir defnyddio gofal plant presennol, o ansawdd, cofrestredig i hyrwyddo blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, megis trechu gwyliau llwglyd, a hyn yn hytrach na sefydlu clybiau newydd, heb eu cofrestru, mewn ardaloedd lle y mae (neu lle y bydd) gofal plant. Bydd hyn nid yn unig yn gefnogaeth i deuluoedd mewn angen, ond hefyd yn hyrwyddo cynaliadwyedd ein sector, y mae ei daer angen, ac yn galluogi Clybiau Gwyliau i barhau i gynnig eu gwasanaethau gwerthfawr.

## Hyfforddiant Am Ddim i Weithwyr Chwarae

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi cael eu hariannu trwy Fagiau Cymorth Tesco i roi **hyfforddiant am ddim** i Weithwyr Chwarae, a'r holl hyfforddi'n digwydd yng Nghaerffili. Bwciwch eich lle yn awr i osgoi cael eich siomi drwy gyfrwng ein gwefan www.clybiauplantcymru.org/training-events.asp!

**Bydd pob sesiwn hyfforddi ar ddydd Sadwrn yn cynnwys bwffe am ddim i fynychwyr!**

### Chwarae Allan gyda'r Elfennau

Dydd Mercher, Medi 14eg 2019
9:30yb – 4:30yh
Neuadd Gymunedol Bedwas a Thretomas

Mae'r gweithdy hwn yn cyflwyno cyfranogwyr i'r elfennau, daear, aer, tân a dŵr fel ysgogwyr i chwarae plant. Bydd cyfranogwyr yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer chwarae awyr-agored gda'r elfennau i blant; byddant yn dysgu am y cysyniad o gynnig-ei-hun, yn edrych ar y buddiannau a'r rhwystrau sy'n atal darparu chwarae awyr-agored gyda'r elfennau a phrofi sut i wneud asesiad rig-budd ar gyfleoedd chwarae awyr-agored plant yn ogystal â phrofi gweithgareddau hwyliog y gellir eu hail-wneud yn eu lleoliadau eu hunain.

### Adeiladu Deniau

Dydd Iau, Medi 19eg 2019
6:30yh – 8:30yh
Canolfan Gymunedol y Twyn

Cyflwyno cyfranogwyr i adeiladu deniau drwy gyfrwng gweithgareddau ymarferol. Mae'r gweithdy'n cynnwys adeiladu deniau yn yr awyr agored a syniadau y gallwch eu defnyddio pan fyddwch yn adeiladu den yn eich lleoliad eich hunain, gan ddefnyddio pethau pob-dydd. Ar y cwrs byddwch y tu allan am gyfnod o amser ym mhob tywydd, felly mae dillad addas yn hanfodol.

### Streips Tebyg, Sawl Ffordd

Dydd Mawrth Medi 24ain 2019 6:30yh – 9:00yh
Canolfan Gymunedol y Twyn

Mae'r cwrs hwn ar gyfer gweithwyr Gofal Plant sy'n cefnogi plant sydd ar y sbectrwm awtistiaeth. Bydd y cwrs hwn yn rhoi i weithwyr Gofal Plant ymwybyddiaeth o ymddygiad personol, amgylcheddau a thanwyr sy'n gallu effeithio ar ymddygiad unigolion ar y sbectrwm awtistiaeth, gan ddarparu erfyn sylfaenol a fydd yn eich galluogi i ddatblygu a rhoi ar waith strategaethau i gefnogi ymddygiad sy'n heriol.

### Diwrnod Hyfforddi Gweithwyr Chwarae – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg – ac Iechyd

Dydd Sadwrn Hydref 12fed 2019 9:30yb – 4:30yh
Neuadd Gymunedol Bedwas and Threthomas

Mae hwn yn ymgorfforí 3 o'n gweithdai poblogaidd, hwyliog ac ymarferol: Dim ond Dŵr, Pwlis a Phethma ac Yn Gyforiog o Gemau.

**Dim ond Dŵr:** Profwch Wyddoniaeth gyda'r gweithdy hwn sy'n llawn o weithgareddau hwyliog, ar y thema, dŵr. Mynnwch wybod sut mae'r arbrofion gwyddonol yn y gweithdy hwn yn effeithio arnom yn ein bywydau bob dydd.

**Pwlis a Phethma:** Profwch y grymoedd a'r ynni sydd mewn Gwyddoniaeth yn y gweithdy yma sy'n llawn o weithgareddau llawn gwybodaeth a hwyl.

**Yn Gyforiog o Gemau:** Mae'r gweithdy hwn yn darparu llu o syniadau ar gyfer hyrwyddo gemau mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol ac yn hyrwyddo manteision gweithgaredd corfforol, cyfathrebu a meithrin tîm.

### Hawliau a Chyfranogaeth Plant

Dydd Sadwrn Tachwedd 9fed 2019 9:30yb – 4:30yh
Neuadd Gymunedol Bedwas a Thretomas

Mae Hawliau a Chyfranogaeth Plant wrth galon pawb sy'n gweithio gyda phlant. Mae'n hanfodol fod Gweithwyr Chwarae'n rhoi ar waith eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfranogaeth plant. Cyfle i ddatblygu ffyrdd newydd a phleserus o ymgynghori a rhoi adborth wrth weithio gyda phlant.

## Dreigiau Newydd yn y dre!

Mae Caerffili wedi gorfod creu lle i ddreigiau bychain newydd ers i Glwb y Ddraig agor ei drysau!

Agorodd Clwb Y Ddraig ar Fawrth 18fed 2019 gyda'r nod cenhadol o gefnogi hawl plant i chwarae drwy gynnig lle chwarae o'u dewis eu hunain. Mae'r lleoliad yn cynnig gofal plant Brecwast ac Ôl-ysgol ar hyn o bryd i blant sy'n mynychu Ysgol y Castell.

Y plant sy'n arwain y Clwb yma ac mae'r staff yn gwrando ar awgrymiadau a syniadau'r plant ac yn paratoi'r amgylchfyd chwarae. Dywedodd Naomi, yr Uwch Weithiwr Chwarae, fod 'pob dydd yn y Clwb yn antur i'r plant ac i'r staff. Mae'r rhyddid yr ydym yn ei gynnig yn rhoi'r cyfle i blant fynegi eu hunain yn llawn, ac y mae'n llawenydd pur cael rhannu hynny gyda nhw.'

### Hyfforddiant mewn Ymwybyddiaeth o Anhwylder y Sbectrwm Awtistaidd (ASD) yng Nghasnewydd

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi bod yn darparu hyfforddiant i leoliadau gofal plant er mwyn cefnogi dealltwriaeth o Anghenion Ychwanegol. Gwahoddwyd darparwyr Allysgol i fod yn bresennol mewn sesiwn 2-awr yn y Ganolfan Ddinesig ar Orffennaf 8fed, wedi ei gyflenwi gan Bethan Evans, Seicolegydd Addysgol, ac Anne Drewett - Athrawes Ymgynghorol ym maes y Blynyddoedd Cynnar ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Enw'r sesiwn oedd 'Awtistiaeth a'r defnydd o gynorthwyon gweledol' ac aeth drwy'r hyn yw Awtistiaeth; sut y mae plant ag ASD yn ymddwyn a beth a allai eu hymddygiad ei olygu. Yna aeth ymlaen i edrych ar strategaethau y gallai Ymarferwyr Gofal Plant eu defnyddio i helpu gyda chyfathrebu a darparu trefn y bydd ei hangen ar y plant.

Roedd yn sesiwn llawn gwybodaeth, yn rhoi dealltwriaeth glir o'r cyflwr ac yn galluogi'r Gweithwyr Chwarae i addasu gosodiadau ac ymarferion er mwyn cefnogi plant ag ASD. Drwy ddeall ASD ac ymddygiad plant unigol, gall Gweithwyr Chwarae osgoi camddealltwriaethau ac ymddygiad sy'n anodd ei reoli.

Am fwy o wybodaeth ar ASD mae llawer o adnoddau y gallech eu defnyddio ar y wefan isod, yn cynnwys fideos hyfforddi a mwy o wybodaeth: www.asdinfowales.co.uk

# Hyfforddiant

## Esblygiad Chwarae

Mae nifer o ddamcaniaethau Gwaith Chwarae sy'n edrych i mewn i faes chwarae a'n rôl ni fel Gweithwyr Chwarae. Drwy gydol bob un o'r rhain y mae cred foesegol a phroffesiynol mai ein rôl fel Gweithwyr Chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae. Gellir defnyddio'r damcaniaethau Gwaith Chwarae hyn i roi i ni'r wybodaeth, ac yna, gobeithio, y sgiliau i wella a chefnogi ein harferion a'n galluogi i ddeall ac ymgysylltu'n effeithiol â'r broses chwarae a'r plant a'r bobl ifanc yr ydym yn cydweithio â nhw.

Un ddamcaniaeth Waith Chwarae arbennig sy'n helpu Gweithwyr Chwarae i ddeall y broses chwarae yw Psycholudics (y meddwl y tu ôl i Chwarae) a'r Cylch Chwarae; damcaniaeth sy'n codi o bapur a ysgrifennwyd yn 1997 ar gyfer cyfarfod o Gymdeithas Ryngwladol ar Chwarae yn UDA. Fe wnaeth y papur, a enwyd "The Colorado Paper' – The playground as a therapeutic space: Playwork as healing", a ysgrifennwyd gan y diweddar late Gordon Sturrock, and Perry Else, ein cyflwyno gyntaf i iaith Gwaith Chwarae sy'n dal i gael ei defnyddio 20 mlynedd yn ddiweddarach.

Cawsom ein cyflwyno gan y papur i'r ymadrodd "Psycholudics", sef yr astudiaeth o'r meddwl a'r seicoleg sy'n digwydd wrth chwarae, ac ymadroddion allweddol y Cylch Chwarae megis gyriant y chwarae, Metalude, y ciw chwarae, dychweliad chwarae, ffrâm chwarae, llif chwarae a difodiant y chwarae, y cyfan ohonynt yn cael eu hystyried bellach yn iaith, offer a dulliau hollol allweddol ar gyfer deall camau chwarae a rhoi cyfle i ni ystyried a deall o ddifrif yr hyn yr ydym yn ei weld pan fydd plant yn chwarae a hefyd ein rôl fel Gweithwyr Chwarae yn yr ecoleg chwarae honno.

Fe wnath Perry Else edrych i mewn yn ddyfnach i'r ddamcaniaeth hon mewn papur ar Ehangu Gorwelion ("Widening Horizons") – Ciwiau Chwarae a'r Cylch Chwarae ym mis Gorffennaf 2000, lle yr ymchwiliodd ymhellach i'r cwestiwn, Pam?. Pam fod chwarae'n hanfodol? Pan fod ar bob plentyn angen chwarae? Pam fod yn rhaid i chwarae fod wedi ei ddewis yn rhydd? Turiodd ymhellach i'r iaith a ddefnyddir fel rhan o'r Cylch Chwarae gan fynd yn ei flaen i ddisgrifio fframwaith y credai y gweithredai'r cylch chwarae o'i fewn, er mwyn cymhwyso'r Cylch Chwarae mewn ffordd fwy ymarferol yn y gobaith y byddai Gweithwyr Chwarae'n defnyddio'r cysyniadau yn eu harferion bob dydd.

*"Mae'r Cylch Chwarae'n rhoi cyfle i Weithwyr Chwarae ddisgrifio a deall y broses o chwarae fel y mae'n digwydd. Dylai chwarae fod ynghylch plant yn cymryd risgiau, yn dod i wybod pethau drostynt eu hunain, yn cael hwyl. Yn awr gall Gweithwyr Chwarae ddisgrifio'r ciwiau a'r dychweliadau y maen nhw'n gweld plant yn eu cynnig a gallant weld yn syth y ffrâm chwarae sy'n cael ei defnyddio. Gall hyn eu helpu i wneud ymyriadau mwy sensitif i'r Cylch Chwarae sy'n parchu'r plentyn a'u dewisiadau. Mae'n bosibl y bydd yn dal angen i ymyrryd, er enghraifft i atal y plentyn rhag brifo eu hunain neu eraill, ond dylai'r ymyrraeth fod yn gyfyngedig, a dylai'r gweithiwr anelu at dynnu'n ôl o'r ffrâm chwarae yn gyflym wedi hynny."* Else, P. Gorffennaf 2000

Yn awr yn 2019, ac yn dilyn o waith ymchwil a ymgymerwyd gan Dr Pete King a Dr Shelley Newstead, mae'n ymddangos bod angen ail-lansio'r Cylch Chwarae, gan y gwelwyd yn glir, tra bod gan Weithwyr Chwarae wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ddamcaniaeth a sut i'w chymhwyso, mai ychydig o wybodaeth sydd gan Weithwyr Gofal Plant o'r Cylch Chwarae.

Edrychwch yn y rhifyn nesaf o'r Bont am fwy o wybodaeth ar y Cylch Chwarae, sut y mae wedi cael ei ddefnyddio, a sut y caiff ei gymhwyso yn y dyfodol.

## Gordon Sturrock - Etifeddiaeth

Gyda thristwch ym mis Mehefin, collodd y sector Gwaith Chwarae un o'i feddylwyr mawr, Gordon Sturrock.

Mae Gordon Sturrock yn enw adnabyddus iawn ymysg myfyrwyr Gwaith Chwarae am ei waith ar 'Y Cylch Chwarae'. Mae'r ddamcaniaeth hon wedi bod yn sail i sawl sesiwn Gwaith Chwarae dros y blynyddoedd, gan gael Gweithwyr Chwarae i adnabod pan fydd plant yn chwarae, pryd y bydd - a phryd na fydd! - eu hangen mewn chwarae plant.

Ynghyd â'i waith ar y Psycholudics erfyniwyd arnom fel Gwaith Chwarae i adnabod nid yn unig yr adegau y bydd plant yn chwarae, ond PAM eu bod yn chwarae a'r prosesau emosiynol y maen nhw'n mynd drwyddynt wrth chwarae - a pham fod hyn mor greiddiol bwysig iddyn nhw a'u datblygiad personol.

Mae Gwaith Chwarae'n rhoi pwyslais arnom i ddeall hyn i gyd ac i amddiffyn y plant sy'n chwarae rhag pethau'n torri ar eu traws, fel y gallant gael popeth y maen nhw ei heisiau o'u chwarae. Mae ôl meddwl Gordon Sturrock, i raddau helaeth ar y ffaith ein bod yn edrych mor ddwfn â hyn i bwnc a ddisgrifir yn aml fel 'dim ond chwarae'.

Boed i ti Chwarae mewn Hedd, Gordon.

## Gwobr Lefel 3 mewn Trawsnewid i Waith Chwarae

Cyn gwyliau'r haf cawsom 8 carfan lwyddiannus o Ddysgwyr yn cwblhau eu Gwobr Lefel 3 mewn Trawsnewid i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar.



Mae Dysgwyr o bob rhan o Gymru, yn cynnwys Caerdydd, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy oll wedi gweithio'n galed ac wedi cael llond gwlad o hwyl wrth ymgymryd â'r cymhwyster hwn mewn Gwaith Chwarae.

Mae'r adborth o'r Dysgwyr wedi bod yn hynod effeithiol, a nifer yn argymell bod eraill yn dod ar y cwrs i ddysgu mwy am Waith Chwarae, gan ei fod wedi bod o fudd mawr i'w harferion a sut y maent yn gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc yn eu Lleoliad.



Bydd y cwrs yma, sy'n cynnwys dysgu am ddamcaniaethau chwarae megis mathau o chwarae, mannau chwarae a'r cylch chwarae; gwybodaeth adnewyddol ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; ffyrdd o ymgynghori â phlant a phobl ifanc ac yn y pen draw, y manteision a'r prydferthwch a ddaw i fywydau plant drwy chwarae, yn rhoi i chi wybodaeth a dealltwriaeth ragorol o chwarae, Gwaith Chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a'r ethos a'r angerdd sy'n gwneud Gwaith Chwarae yn unigryw.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgymryd â'r Wobr Lefel 3 mewn Trawsnewid i Waith Chwarae, cysylltwch ag un o'n swyddfeydd lleol am fwy o wybodaeth ac i lenwi ffurflen mynegiant o ddiddordeb.



# Pwysigrwydd Gofal Plant Cofrestredig

Mae nifer o Glybiau Gofal Plant Allysgol ar hyd a lled Cymru wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu gofal plant o ansawdd cyn, ar ôl ac/yn ystod y gwyliau.

Yn dilyn yr ymatebion a gawsom gennych fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn Eithrio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi datblygu taflen i hysbysu rhieni a gofalwyr am fuddiannau defnyddio Gofal Plant Cofrestredig. Rydym yn gobeithio y gellir ei defnyddio i gynyddu dealltwriaeth rhieni/gofalwyr ynghylch y mae bod wedi eich cofrestru gydag AGC yn ei wir olygu, fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus am ofal plant.

Os hoffech ddefnyddio'r daflen hon fel rhan o'ch marchnata yn eich cymuned leol, mae croeso i chi wneud!

I'r Clybiau Gofal Plant Allysgol hynny nad ydynt eto wedi cofrestru, mae cefnogaeth i gofrestru ar gael drwy gyfrwng eich Swyddfa Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Ranbarthol, a'n pecyn cymorth, "Camu Allan" (yn cynnwys llu o ddeunydd cefnogi, yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau sector-benodol) sydd wedi ei adolygu, ac a fydd ar gael i aelodau yn yr Hydref yma.

### Pam Dewis Gofal Plant Allysgol Cofrestredig?



Fel rhieni/gofalwyr, rydych yn dibynnu ar ffynonellau o ofal plant i'ch galluogi i weithio/hyfforddi, boed yn Glybiau Brecwast, Clybiau Ôl-ysgol, Clybiau Gwyliau, cynlluniau chwarae, gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae, Cylchoedd Meithrin neu gefnogaeth gan aelodau o'r teulu.

**A wyddech chi** fod rhai o'r darpariaethau hyn wedi eu cofrestru gydag **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**? **AGC** yw'r **unig Gorff Rheoleiddiol** sy'n archwilio Lleoliadau Gofal Plant ac yn gwirio eu bod yn bodloni'r gofynion sy'n cael eu gosod yn y **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 mlwydd oed**.

#### Mae defnyddio Darparydd Allysgol sydd wedi cofrestru ag AGC yn golygu:

• Gall ffioedd fod yn **fwy fforddiadwy**, a darparwyr cofrestredig yn gallu cynnig cynlluniau megis **Gofal Plant Di-dreth** (gan alluogi rhieni cymwys sy'n gweithio i gyrchu gostyngiad gwirioneddol o 20% yn eu ffioedd); Y **Cynnig Gofal Plant** (sy'n galluogi rhieni/gofalwyr plant 3-4 blwydd oed sy'n gweithio i gyrchu 30 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi ei ariannu); a'r **elfen ofal plant o Gredydau Treth/ Credydau Cynhwysfawr**.

• Mae'r Lleoliad yn glynu at **gymarebau staffio** caeth (cymhareb o 1:8 yn achos plant 3-7 blwydd oed, ac 1:10 yn achos plant 8-12 blwydd oed).

• Mae'r ddarpariaeth yn cael ei harchwilio gan AGC, sy'n gwneud yn sicr bod **yr holl staff yn addas** (**wedi eu gwirio gan y GDG,** ac wedi eu hyfforddi mewn **Cymorth Cyntaf, Diogelu, Hylendid Bwyd**)

• Mae gan y lleoliad **polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr** yn eu lle sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o **amgylchedd diogel**, **o ansawdd** i'ch plentyn/plant, gan weithio'n unol â'r **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir**.

• Mae'r staff wedi eu hyfforddi mewn Gwaith Chwarae – golyga hyn eu bod yn deall pwysigrwydd **dysgu drwy chwarae** a sut i helpu'ch plentyn/ plant i ddatblygu mewn amgylchedd chwarae o ansawdd.

• Gall Darparwyr Cofrestredig gynnig **oriau hwy** i ateb eich anghenion yn well.

• Gellir dod o hyd i Adroddiadau Archwiliadau AGC ar-lein (<https://careinspectorate.wales/>) ac maent yn erfyn defnyddiol wrth ichi wneud eich dewis o ofal plant.

#### Sut i ddod i wybod a yw'ch Lleoliad Gofal Plant wedi ei gofrestru gydag AGC

• Bydd gan Leoliadau Cofrestredig Rif Cofrestru Unigryw gan AGC wedi ei arddangos ar eu tystysgrif Cofrestru.

• Gallwch chwilio am Leoliadau Gofal Plant Cofrestredig yn eich ardal chi drwy wefan AGC (https://careinspectorate.wales/)

| | **Clwb Gofal Plant Allysgol wedi ei gofrestru gydag AGC** | **Gofal Plant heb ei gofrestru e.e. Clybiau Gweithgaredd, Gwersylloedd Chwaraeon** |
|---|---|---|
| Mynediad at gymorth ariannol drwy gynlluniau'r Llywodraeth | ✓ | X |
| Cydymffurfiad â'r cymarebau staffio sylfaenol a ragnodir, sef 1 oedolyn i 8 blant dan 8; neu 1 oedolyn i 10 o blant rhwng 8 a 12. | ✓ | X |
| Sicrwydd bod yr holl staff wedi eu gwirio gan y GDG ac wedi mynychu hyfforddi perthnasol e.e. Cymorth Cyntaf, Diogelu, Hylendid Bwyd) | ✓ | X |
| Hyder bod amgylchedd chwarae diogel, o ansawdd, sy'n ateb gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yn cael ei gynnig | ✓ | X |
| Staff wedi eu hyfforddi mewn Gwaith Chwarae | ✓ | X |
| Y gallu i gynnig amserau agor sy'n ateb anghenion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio. | ✓ | X |
| Y gallu i wneud dewis gwybodus am opsiwn gofal plant, wedi ei seilio ar Adroddiadau Archwilio AGC. | ✓ | X |

**Cysylltwch â ni:**
**www.clybiauplantcymru.org**
**info@clybiauplantcymru.org**
De Ddwyrain Cymru – 029 2074 1000
Gorllewin Cymru – 01269 831010
Gogledd Cymru – 01492 536318

**Registered Office / Swyddfa Gofrestredig** Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff. CF14 5UW
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW
**T** 029 2074 1000 **E** info@clybiauplantcymru.org Company limited by guarantee / Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436 Registered Charity / Elusen gofrestredig 1093260

# Cymraeg

## Yn Castio yn Awr... mae angen sêr ar Welsh Now in a Minute!

Rydym wedi cael tipyn o hwyl yma yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn ddiweddar, yn gwneud fideos byr i annog plant nad ydynt yn siarad Cymraeg i roi cynnig arni.

Fe wnaethom ddechrau ar ein fideo cyntaf – Yn yr Ardd (In the Garden) yn gynharach eleni ac ers hynny rydym wedi ychwanegu Amser Bwyd (Time for food) a Chwaraeon (Sports) at y casgliad.

Rydym yn defnyddio plant staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar hyn o bryd i wneud y fideos yma, ac er ein bod o'r farn eu bod nhw i gyd yn sêr bach disglair y tu hwnt, byddai'n dda gennym petaech chi - ein Clybiau Allysgol yn dod yn rhan o hyn.

Tybed a allech ein helpu drwy ddarparu clips bychain i ni o blant eich Clwb Allysgol yn dweud wrthym pa bethau y maen nhw'n eu hoffi am fod ar wyliau neu'r pethau y maen nhw'n hoff o chwarae â nhw yn ystafell eich Clwb Allysgol?



## Hyfforddiant yn yr Iaith Gymraeg - Camau

Mae cofrestru ar gyfer Hyfforddiant AM DDIM yn yr Iaith Gymraeg i Weithwyr Chwarae yn awr ar agor!

Gallwch gofrestru eich diddordeb i fynychu cwrs 20-awr yn yr iaith Gymraeg yn rhan o gynllun 'Camau'. Camau yw'r enw a roddir i'r hyfforddiant pwrpasol yn yr iaith Gymraeg a roddir i'r sector Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae.

Mae cyrsiau ar gael ar 4 lefel wahanol:

- Mynediad (lefel dechreuwyr i staff Gwaith Chwarae)
- Mynediad (lefel dechreuwyr i staff y Blynyddoedd Cynnar)
- Sylfaen (gwybodaeth sylfaenol o Gymraeg)
- Canolradd (eithaf rhugl)
- Uwch (rhugl ond angen mireinio)

Gall Dysgwyr hefyd ddewis o blith gwahanol lefelau o gyflenwi:

- Rhyddhau am ddiwrnod (2/3 awr)
- Noson (2/3 awr)
- Cwrs dydd (diwrnod wythnos 6/7 awr)
- Cwrs undydd (Dydd Sadwrn 6/7 awr)
- Cwrs yn y gweithle (2 awr yr wythnos)

Yn ychwanegol at fynychu'r sesiynau hyn a ddysgir, gallech hefyd dderbyn cefnogaeth a mentora wedi cwblhau'r cwrs gan Gydlynwyr Iaith Gymraeg Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Byddant yn eich helpu i roi'r Gymraeg y gwnaethoch ei dysgu ar waith yn eich lleoliad, gan eich helpu i gynnal eich sgiliau a thyfu mewn hyder.

Caiff Dysgwyr yn ogystal fynediad at y Gwiriwr – y Gwirydd Lefel Cymraeg; erfyn ar-lein sy'n gallu rhoi penderfyniad ar eich gallu bob 3 mis.

Ac yn orau oll, gall cyflogwyr hawlio £10 yr awr am ryddhau staff i fynychu sesiynau hyfforddi yn ystod oriau gwaith.

I gofrestru eich diddordeb cwblhewch y ffurflen ar-lein os gwelwch yn dda ar http://bit.ly/CPCKC-CAMAU cyn gynted â phosibl fel y gellir trefnu cyrsiau yn agos atoch chi!

Camau
Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar
Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare


**Out of *School***

Yswiriant ALL-YSGOL i glybiau all-ysgol



Gostyngiad o tua **15% i aelodau** Clybiau Plant Cymru Kids'

Mae yswiriant All-Ysgol wedi ei gynllunio'n arbennig i glybiau al-ysgol sy'n darparu gweithgareddau cyn ac ar ôl oriau ysgol.

Am fwy o wybodaeth ewch i
**www.mortonmichel.com/outofschool**
e-bostiwch
**outofschool@mortonmichel.com**
neu ffoniwch
**020 8603 0943**

Morton Michel
The Childcare Insurance Specialist

Awdurdodir a Rheoleiddir Morton Michel Cyf ('Morton Michel') gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol




# Codi Hwyl wrth Godi Arian

## Syniadau Codi Arian Ysbrydoledig Prosiect Santander!

Yn rhan o'n Prosiect a ariannwyd gan Santander funded Project, fe wnaethom weithio gydag 8 Clwb Gofal Plant Allysgol ar draws Cymru i annog y plant sy'n mynychu i gynllunio ac i redeg eu gweithgaredd codi-arian eu hunain er mwyn helpu eu hunain i ddatblygu eu sgiliau a hyrwyddo cynaliadwyedd eu clwb. Derbyniodd pob clwb £50 i ddefnyddio unrhyw adnoddau a fyddai'n angenrheidiol i lwyddiant eu hymdrech godi-arian, a gwnaethant dderbyn Gweithdy newydd ar Gyllidebu, ar Hanfodion Ariannol, sef "Money FUNdamentals", gan un o'n Swyddogion Hyfforddi, lle gwnaethant edrych ar sut y byddent yn cynllunio, cofnodi gwariant ac incwm, a sut i farchnata digwyddiad yn llwyddiannus.

Daeth y plant ym mhob clwb â rhai syniadau ardderchog, a dyma feddwl y gallem eu defnyddio yn ysbrydoliaeth ar dudalen codi arian Y Bont!

Mae Kidz Den ym Merthyr Tudful yn hen lawiau ar godi arian, yn chwilio'n gyson am ffyrdd newydd o gefnogi eu cynaliadwyedd e.e. drwy nosweithiau ffilm. Cynhaliodd y clwb Ddiwrnod Hwyl ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg a'r staff a'r plant yn rhoi eu hamser sbâr i wneud y digwyddiad yn llwyddiant mawr! Y plant a feddyliodd am y syniad gwreiddiol am godi arian, ynghyd â'r syniadau am stondinau a phethau i'w cynnwys yn ogystal â chreu posteri (a luniwyd ar gyfrifiadur) i hysbysebu'r digwyddiad yn eu cymuned leol. Ar y diwrnod bu'r plant yng ngofal rhai o'r stondinau eu hunain, gan fod yn gyfrifol am daliadau.



Defnyddiwyd £10 o'r arian gan Santander i dalu am rentu'r neuadd ar gyfer y digwyddiad 2-awr.

**Paentio Wynebau / Tatŵs** - Defnyddiodd un aelod o'r staff baentiau wyneb y clwb i baentio wynebau a thatŵs am bris bychan.

**Castell Bowns** – trhoddwyd i'r clwb y defnydd o ddau gastell bowns ar gyfer y digwyddiad, un i blant bach ac un i blant hŷn. Codwyd tâl bychan am eu defnyddio.

**Bwyd a Diod** – prynodd y clwb rai eitemau, ond aethant at fusnesau lleol yn ogystal am gefnogaeth a rhoddion. Rhoddodd eu Greggs lleol 100 o doesenni iddynt; rhoddwyd rhai bagiau losin a diodydd carton a hefyd £50 tuag at y digwyddiad.



**Sleim a Playdough** – prynodd y clwb sleim, a gwneud rhywfaint o playdough gan ddefnyddio'r rhodd o £50 a roddwyd gan Santander, a gwerthu'r rhain yn y Diwrnod Hwyl.

**Faint o losin sydd yn y pot?** – llanwodd y plant bot yn llawn o losin 'flying saucers' gan godi swm bychan ar bobl i ddyfalu'r swm yn y pot i fod â siawns o ennill y losin!

**Raffl** – gofynnodd y clwb a'r plant am roddion o eitemau gan deulu, ffiniau a siopau lleol i'w defnyddio mewn raffl, a gwnaethant werthu tocynnau yn rhan o'r pris mynediad bychan i'r digwyddiad.



**Tombola** – gofynnodd y clwb a'r plant am eitemau (e.e. teganau nad sydd mo'u hangen, llyfrau a nwyddau mewn tun) i'w defnyddio mewn tombola, ynghyd â thâl bychan am ddewis tocyn sy'n cyfateb ag un o'r eitemau.

**Tŵr Tuniau** – gellid codi tâl bychan am geisio bwrw i law dŵr o ganiau, a rhoi lolipops yn wobrau.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr ac mae'r plant wedi penderfynu defnyddio'r **£485.55** a godwyd tuag at dripiau i'r Clwb Gwyliau. Roedd y plant eu hunain yn fuddsoddiad yn y digwyddiad gan iddo fod o dan eu harweiniad o'r cychwyn, ac roedent yn teimlo'n frwdfrydig am drefnu mwy o ddigwyddiadau yn y dyfodol!

**A oes gennych unrhyw syniadau codi arian hoffech eu rannu gyda ni? Ebostiwch hwy atom! info@clybiauplantcymru.org**

Santander FOUNDATION

### Cefnogwch Ni wrth inni'ch Cefnogi Chi!

Nid yw siopa ar-lein drwy www.easyfundraising.org.uk/clybiauplantcymrukidsclubs yn costio ceiniog yn ychwanegol, ond y mae'n caniatáu i ni dderbyn hyd at 15% o bob pryniant a wnaed o'r 400+ o siopau a restrir, gan olygu y bydd gennym fwy o arian i barhau i gefnogi clybiau megis eich clwb chi.

### e-newyddion

Fel aelod-glwb cewch afael ar ôl-rifynnau ein bwletinau e-newyddion yn ardal aelodau ein gwefan, sef www.clybiauplantcymru.org ac os oes gennym gyfeiriad ebost ar eich cyfer, anfonir rhifynnau o'r Bont i'r dyfodol atoch yn uniongyrchol. Anfonwch eich manylion ebost imembership@clybiauplantcymru.org er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich copi electronig.



# Prosiectau

## Asiantaeth Ofod y DU

Yn rhan o'n prosiect a ariannwyd gan Asiantaeth Ofod y DU, fe wnaethom fynychu Diwrnodau Chwarae ar hyd a lled Cymru y mis Awst yma, gan arddangos rhai o'r gweithgareddau hwyl yr ydym wedi eu datblygu yn rhan o'n gweithdy newydd ar thema'r Gofod.

Bydd 6 Chlwb Gofal Plant Allysgol lwcus a enillodd ein cystadleuaeth "Gwisgo'ch Gweithiwr Chwarae â Rhannau Rhydd" yn cael Gweithdy Gofod yn eu Clwb yn ystod tymor yr Hydref, ac fe roesom gynnig ar wisgo i fyny ein Swyddogion Hyfforddi yma yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs!

Byddwn yn cynnal 3 "Digwyddiad Lansio" i Weithwyr Chwarae yn ystod Tymor yr Hydref, un yn Ne Ddwyrain Cymru, un yng Ngorllewin Cymru ac un yng Ngogledd Cymru. Bydd pob digwyddiad yn cynnwys ein Gweithdy Gofod newydd yn ogystal â chyfle i brofi 'planetariwm chwyth' drwy garedigrwydd Dark Sky Wales, a fydd yn bresennol ym mhob digwyddiad. Bydd manylion pob digwyddiad yn dilyn yn fuan drwy e-bost, ar ein gwefan ac ar ein tudalennau Cyfrwng Cymdeithasol.

UK SPACE AGENCY




### Ymddiriedolaeth Oakdale

Bu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn ddigon ffodus i dderbyn ariannu gan Ymddiriedolaeth Oakdale i gynnig i 5 Clwb Gofal Plant Allysgol yn Ne-ddwyrain Cymru Weithdy Clwb Parth Natur am ddim, er mwyn ennyn brwdfrydedd plant am yr angen i ddiogelu a gwella eu hamgylchedd lleol, i'w helpu i gynyddu'u dealltwriaeth o'r byd naturiol o'u cwmpas, ffyrdd o gynyddu bioamrywiaeth yn eu mannau lleol a sut y gall llygredd effeithio'r amgylchedd lleol a'r amgylchedd ehangach.

Mae ein Gweithdy Parth Natur a'n Pecyn Gweithgaredd dwyieithog, a ddatblygwyd gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, gydag ariannu o'r Prosiect Clybiau Plant (Cronfa Gymdeithasol Ewrop), yn rhoi syniadau ymarferol i Weithwyr Chwarae eu defnyddio mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol. Y mae'r cyfan ynghylch chwilota yn yr amgylchfyd drwy chwarae, ac yn cynnwys pethau i'w gwneud y tu mewn a'r tu allan, gan ysbrydoli plant (a Gweithwyr Chwarae) i gymryd diddordeb yn eu hamgylchedd lleol ac i gwestiynau'r byd o'u cwmpas. Adeiladwyd ar y gweithdy a'r Pecyn Gweithgaredd yn ystod y blynyddoedd diweddar er mwyn ymgorffori cyfleoedd dysgu a gweithgareddau pellach drwy weithgareddau wedi eu hariannu gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Ernest Cook, Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a South Hook.

Fe wnaeth **Clwb Allysgol St Andrews Out of School Club, Clwb Ôl-ysgol Dowlais, Clwb Allysgol Lliswerry, Clwb Ôl-ysgol Ffynnon Taf** a **Simply Out of School, Llanharan** oll ennill gweithdy clwb Parth Natur drwy gystadleuaeth y gwnaethom ei chynnal ar ein Tudalen Facebook, gan dderbyn y gweithdai yn ystod Tymor yr Haf. Cafodd bob gweithdy derbyniad da, a rhoddwyd i bob clwb gopi o'n pecyn Parth Natur er mwyn iddynt barhau i ddefnyddio'r syniadau a'r gweithgareddau yn y dyfodol.

Oakdale Trust




## Cwrs ar Sylfeini Ariannol gyda Santander

Mae ein prosiect sydd wedi ei ariannu gan Santander yn awr wedi dod i ben, a'r 8 o'n Clybiau Gofal Plant Allysgol wedi cael gweithdai clwb er mwyn cefnogi plant i ddatblygu, rheoli a chynnal eu digwyddiadau codi arian eu hunain. Mae'r plant wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn creu'r syniad gwreiddiol am godi arian, wedi gosod cyllideb gan ddefnyddio'r rhodd o £50 i bob clwb, dysgu sut i gofnodi incwm a gwariant a hysbysebu eu digwyddiad yn eu hysgol/cymuned leol.

Mae'r plant oll wedi gwneud gwaith ardderchog o redeg y digwyddiadau codi arian ac mae rhai eisoes yn paratoi i gael mwy o godwyr arian!

Mae pob Clwb unigol wedi ymgynghori â'r plant i benderfynu ar ba bethau y dylid gwario'r arian a godir, a rhai'n prynu adnoddau, rhai'n defnyddio'r arian ar gyfer tripiau dydd a phrofiadau, yn ogystal â dynodi'r arian ar gyfer digwyddiadau'r dyfodol. Bydd y cyfansymiau terfynol a godwyd gan y clybiau yn rhan o'r prosiect yn cael eu rhannu drwy gyfrwng ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol unwaith y bydd y plant wedi gorffen cwblhau eu 'cyfrifon'.

Erbyn diwedd y Gweithdy Clwb, roedd 100% o'r Gweithwyr Chwarae'n teimlo'n 'hyderus iawn' y gallent gefnogi plant i lunio cyllideb, cofnodi incwm a gwariant, marchnata digwyddiad a rhedeg eu digwyddiad codi arian eu hunain. Gobeithio y bydd yr hyder hwn yn arwain tuag at drefnu mwy o ddigwyddiadau codi arian yn y dyfodol.

Santander FOUNDATION

### Y Gwahaniaeth a Wnaed

Bu'n rhyfeddol o dda derbyn yr adborth cadarnhaol a ddaeth gan Weithwyr Chwarae a phlant yn dilyn y digwyddiadau codi arian a gafodd eu cynnal yn ystod tymor yr haf, gan ddangos yn glir werth y prosiect yma.

*"Gweithiodd y plant yn galed iawn. Fe wnaethant ddylunio holiadur a mynd o gwmpas yr holl ddosbarthiadau iau i weld pa losin oedd orau ganddynt, gan ddefnyddio'r canlyniadau i ddewis pa losin i'w prynu".*
*"Roedd y plant yn credu y byddai'n syniad da i gael opsiwn di-glwten a safri yn ogystal. Hefyd mae rhai plant ag anhwylder seliag".*
*"Hoffwn godi arian eto. Byddwn yn gwneud yr un garddio y tro nesaf".*
*"Byddwn yn hoffi codi arian eto ar gyfer cyfarpar chwaraeon, gôl targed pêl-droed a chyfarpar tenis ."*
*"Diolch yn dalpiau am weithdy mor hyfryd. Fe wnaeth y plant ei fwynhau yn fawr."*
*"Ro'n i'n dwlu ar y gweithdy."*
*"Os bydda i'n rhedeg fy musnes fy hunan pan fydda i wedi tyfu lan, bydda i'n gwybod pa bethau sydd ishe'u gwneud."*
*"Fe fydden i'n rhoi marc o 1000 mas o 100 i'r gweithdy 'ma. - fe wnes i fwynhau yn fawr iawn rhedeg fy stondin fy hun yn ein digwyddiad a gwneud posteri ddweud wrth bobl amdano."*

### Gwersi a Ddysgwyd

Hyd yn oed pan nad yw pethau'n mynd fel y bwriadwyd, mae lle o hyd i ddysgu er mwyn sicrhau llwyddiant yn y dyfodol. Mae diwedd Tymor yr Haf yn aml yn adeg brysur o ran digwyddiadau ysgol a chymuned, ac fe wnaeth un Clwb Gofal Plant Allysgol a gymerodd ran yn y Prosiect addasu eu syniad gwreiddiol am godi arian er mwyn osgoi cystadlu â digwyddiadau eraill yn eu hardal leol. Yn dilyn eu digwyddiad ar raddfa lai, adlewyrchodd y staff a'r plant ar sut yr oedd pethau wedi mynd, a phenderfynu y byddai digwyddiadau codi arian yn y dyfodol yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus pe baent yn cymryd rhan mewn digwyddiad a oedd eisoes wedi ei drefnu, neu pe baent yn cynnal y digwyddiad ar adeg o'r flwyddyn pan nad oedd cymaint yn digwydd yn eu hardal leol, fel y byddai rhieni/aelodau o'r gymdogaeth yn fwy tebygol o gymryd rhan. Mae adlewyrchu a gwerthuso yn rhan hanfodol o unrhyw brosiect, ac mae hyn ynddo'i hun yn helpu plant i ddysgu sgiliau gwerthfawr y gellir eu defnyddio yn nes ymlaen yn eu bywydau.



# Diweddariad i Gyflogwyr

## Atgoffiadau:

1. Gwnewch yn sicr fod eich slipiau tâl yn cael eich diweddaru.

Pensiynau ac ymrestru awtomatig
O Ebrill 6 2019 cododd y lefel isaf o gyfraniad y cyflogwr i gynllun pensiynau ymrestru awtomatig o 2% i 3%, a chafwyd cynnydd o rhwng 3% a 5% yng nghyfraniad y cyflogai. Cynyddodd cyfanswm y cyfraniad isaf felly o 5% i 8%.

Slipiau tâl
Daeth dau newid pwysig yn y rheolau ar slipiau tâl i rym ar Ebrill 6 2019. Mae'r newidiadau'n yn cynnwys slipiau tâl dros gyfnodau tâl sy'n dechrau ar neu wedi'r dyddiad hwn.
• Rhaid i slipiau tâl gynnwys gwybodaeth ychwanegol i unigolion lle ceir amrywiadau yn eu tâl yn ddibynnol ar nifer yr oriau y maen nhw wedi eu gweithio. Pan fydd tâl unigolyn yn amrywio yn ôl nifer yr oriau y maen nhw wedi eu gweithio, rhaid i'r slip tâl osod nifer yr oriau y telir amdanynt ar y sail gadarn yma.
• Ymestynnwyd yr hawl i slip tâl i bob gweithiwr, yn hytrach na chyflogeion yn unig, am gyfnodau tâl sy'n dechrau ar neu wedi Ebrill 6 2019.

2. Gwnewch yn sicr eich bod yn talu'r isafswm cyflog cenedlaethol.

Cynyddodd y cyflog byw cenedlaethol i weithwyr dros 25 mlwydd oed i £8.21 yr awr ar 1 Ebrill 2019.

Cynyddodd cyfraddau eraill perthynol i'r isafswm cenedlaethol, a'r cyfraddau fesul awr yn codi o £7.70 i weithwyr 21 i 24 blwydd oed, i £6.15 i weithwyr 18 i 20 mlwydd oed ac i £4.20 i weithwyr dan 18 mlwydd oed nad ydynt bellach o oed ysgol gorfodol

3. Cynyddwch y tâl statudol, teulu-berthynol a'r tâl salwch statudol

Treth incwm – O Ebrill 6 2019, cynyddodd y lwfans personol o £11,850 i £12,500 a throthwy'r gyfradd uwch o £46,350 i £50,000.

Cynyddodd cyfradd wythnosol tâl mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu a rhieni ar y cyd i £148.68 yn achos wythnosau tâl yn dechrau ar neu wedi Ebrill 7 2019.

Cynyddodd cyfradd wythnosol tâl salwch statudol i £94.25 o Ebrill 6 2019.

4. Addaswch gyfrifiadau tâl diswyddo statudol eich sefydliad

Daeth terfynau newydd ar dâl diswyddo statudol cyflogaeth i rym ar Ebrill 6 2019. Rhaid i gyflogwyr sy'n cael gwared â chyflogeion am fod y swydd yn dod i ben dalu'r rhai hynny sydd â hyd gwasanaeth o ddwy flynedd, swm sydd wedi ei seilio ar dâl wythnosol cyflogai, hyd eu gwasanaeth a'u hoed. Mae'r uchafswm yn achos y tâl wythnosol. O Ebrill 6 2019 daeth y swm hwn yn £525.

## Newyddion Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Disgwylir **Datganiad ar y Gwasanaeth Hunanasesu(SASS) (yn cyfuno elfennau o ran 1 a 2 y gwasanaeth)** erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, ac y mae'n debygol o gynnwys gwybodaeth ar allu i ddarparu a'r Cynnig Gofal Plant.

Y mae i **archwilio gofal plant a chwarae god ymarfer newydd**. Hefyd, mae'r Archwilwyr wedi cael eu hyfforddi ar ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth, y gellir dod o hyd iddynt ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd yr Archwilwyr hefyd yn cael **hyfforddiant mewn Gwaith Chwarae** ym mis Hydref, a bwriedir hyfforddi nifer llai o archwilwyr i ddod yn **'eiriolwyr chwarae'** ar gyfer archwilio gofal plant a chwarae.

Mae gan AGC hefyd information and guidance i'ch helpu i baratoi a chyflwyno'ch cais am gofrestru ag AGC, yn y rhestrau gwirio y maent yn eu defnyddio i wirio bod eich cais yn gyflawn.

Mae'r canllawiau presennol yn golygu y bydd AGC yn derbyn eich cais i gofrestru ag AGC ar yr ail gyflwyniad, hyd yn oed os nad ydyw'n gyflawn. Gallai hyn olygu oedi yn yr amser cofrestru wrth iddynt aros am wybodaeth ychwanegol.

Felly, yn unol â system gais ar-lein y bwriedir ei lansio yn yr Hydref, bydd AGC yn awr ddim ond yn derbyn ceisiadau os ydynt yn gyflawn. Mae hyn yn gwneud yn sicr y bydd yn barod i'w brosesu pan fydd AGC yn ei dderbyn.

Bydd AGC yn dweud wrthym os nad yw'ch cais yn gyflawn; caiff ei ddychwelyd atoch i'w gwblhau ac nid oes terfyn ar y nifer o adegau y gallwch gyflwyno cais i AGC

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

## Cefnogi ein Clybiau sydd wedi Cofrestru ag AGC

Fe wnaeth sawl un ohonoch gyfrannu at ein hymgynghoriad ar **Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010** a osododd 'eithriadau' i'r hyn a ystyrir yn warchod plant neu'n ofal dydd i blant. Fel sector roeddem gennym bryderon am fod darpariaethau megis clybiau gweithgaredd gwyliau, gwersylloedd chwaraeon a'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol (SHEP) wedi eu heithrio o gael eu cofrestru ag AGC, a'u bod yn tanseilio cynaliadwyedd Clybiau Gwyliau a oedd eisoes wedi eu sefydlu a chofrestru ag AGC, yn ogystal â phryderon presennol ynghylch diogelu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn awr wedi ei ddadansoddi gan Lywodraeth Cymru, ac o ganlyniad maent yn bwriadu:

- Rhoi gwybodaeth i rieni ar ofal plant cofrestredig/anghofrestredig; ac
- Ymgymryd ag ymgynghoriad mwy cynhwysfawr yn deillio o'r Cais am Dystiolaeth erbyn diwedd 2020.

Yn ychwanegol, i ddangos y gall plant mewn angen ddal i ddefnyddio **Clybiau wedi'u cofrestru ag AGC** i gael mynediad at gyfleoedd chwarae cyfoethog ac elwa o bryd o fwyd, byrbrydau a diodydd iach, mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs hefyd wedi cymryd rhan mewn Peilot Gwyliau Llwglyd a Chwarae, Llywodraeth Cymru. Rhoddodd hyn fodd i 3 Chlwb Gwyliau o wahanol rannau o Gymru i ddarparu lleoedd i blant mewn angen, sydd wedi sydd eu hariannu'n llawn dros wyliau haf yr ysgolion.

Rydym am i lwyddiant y sesiynau peilot hyn i sicrhau bod yr ariannu, os caiff ei barhau, yn cael ei ddosbarthu i gynorthwyo teuluoedd i gael lleoedd mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol Cofrestredig yn hytrach nag mewn clybiau "Gwyliau Llwglyd neu Bwyd a Hwyl" nad ydynt wedi'u cofrestru na'u rheoleiddio. Er y gall y cynlluniau hyn fod yn addas mewn ardaloedd lle na fyddai darpariaeth gofal plant yn gynaliadwy, mewn ardaloedd lle y mae, neu lle y gallai fod, Ofal Plant cynaliadwy sydd wedi ei Gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, mae'n hanfodol fod y darpariaethau hyn yn cael eu cefnogi ac y cymerir golwg gyfannol o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Credwn fod cynaliadwyedd y sector Gofal Plant Allysgol, yn enwedig Clybiau Gwyliau, yn ddibynnol ar glybiau cofrestredig yn rhedeg heb gystadleuaeth o du'r rhai nad ydynt yn gorfod gweithredu yn ôl cymarebau, gofynion cymwysterau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, nac ychwaith wedi eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru i wneud yn sicr eu bod yn cyfateb â safonau o ansawdd.



## A ydych chi'n Barod am Archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mae pob Clwb Gofal Plant Allysgol yn cael archwiliadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i wneud yn siŵr fod gofal diogel yn cael ei ddarparu, a chydymffurfiad â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Os ydych wedi cael archwiliad o'r blaen, byddech efallai'n ymwybodol eisoes o'r polisïau/gweithdrefnau y bydd AGC o bosibl yn eu hadolygu. I'ch atgoffa o'r pethau y dylid eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod eich Lleoliad yn 'Barod am Archwiliad' rydym yn cynnwys erthygl ym mhob rhifyn o'r Bont, yn cynnwys detholiad o'r prosesau/gweithdrefnau y gellid edrych arnynt yn eich Archwiliad nesaf. Nid yw'r rhestr yma'n gyflawn, a dylid eu hystyried ar y cyd â deddfwriaeth berthnasol, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a dogfennau cefnogi eraill (er enghraifft, ein hadnodd, "Camu Allan").

**Ffeiliau Staff**
Dylai pob aelod o'r staff sydd wedi eu cyflogi gan y Clwb Gofal Plant Allysgol fod â Ffeil Staff gyflawn, a ddylai fod ar gael yn ystod archwiliadau Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae Ffeiliau Staff anghyflawn wedi eu nodi mewn nifer o archwiliadau, lle cael bylchau cyffredin o ran cynnwys ffotograff diweddar, cofnodion goruchwylio ac arfarnu a dau eirda ysgrifenedig.

Dylai ffeiliau staff gynnwys:

- Cerdyn record, yn cynnwys manylion cyswllt, cysylltiadau brys, anghenion meddygol a manylion banc.
- Prawf Adnabod, yn cynnwys ffotograff diweddar, tystysgrif geni a thystiolaeth o gyfeiriad presennol
- Tystiolaeth o Gymhwysedd i weithio yn y DU
- Rhif Datgeliad y GDG(DBS), dyddiad dyroddi, dyddiad y cafodd ei gyflwyno i'w archwilio gan reolwyr (a phwy a'i archwiliodd), ynghyd â'r dyddiad/au y gwiriwyd y Gwasanaeth Diweddaru (a chan bwy) lle bo hynny'n berthnasol.
- Hyfforddiant: copïau o dystysgrifau gwreiddiol parthed cymwysterau/ hyfforddiant perthnasol; taflen hanes hyfforddi; cynllun datblygu
- Ffurflen gais wreiddiol a gwblhawyd yn achos y rôl/CV yn cynnwys hanes gwaith llawn gydag esboniad o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth a'r rheswm dros gyflogaeth flaenorol, perthynol i blant yn dod i ben.
- Dau eirda ysgrifenedig, yn cynnwys gan y cyflogwr diweddaraf – rhaid gwneud hyn yn achos yr holl staff, hyd yn oed os nad oedd yn ofyniad pan gawsant eu cyflogi yn gyntaf.
- Copi o gontract / telerau ac amodau cyflogaeth; unrhyw ohebiaeth berthnasol i newidiadau i'r rhain; a chopi o'r disgrifiad swydd, yr oriau a gontractir a manyleb person
- Gweithdrefn sefydlu ynghyd â thystiolaeth ei fod wedi ei gwblhau'n briodol, yn cynnwys datganiad wedi ei lofnodi, yn dangos bod yr aelod o'r staff wedi ei darllen a'i deall, a'i fod yn cytuno i weithio'n unol â pholisïau a gweithdrefnau'r lleoliad.
- Gohebiaeth ffurfiol oddi wrth/at aelod o'r staff
- Datganiad wedi ei lofnodi (gan aelod o'r staff), ar addasrwydd (yn cynnwys o ran iechyd corfforol a meddyliol) i weithio a chael cyswllt rheolaidd â phlant dan 12 mlwydd oed
- Datganiad ar gyfle cyfartal wedi ei lofnodi
- Cofnodion cyfarfodydd prawf, cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu
- Cofnodion eraill: absenoldeb, salwch, taflenni amser, gwyliau
- Datganiad gan y Person Cofrestredig ar a yw ef neu hi'n fodlon o ddilysrwydd y wybodaeth ar bwy yw'r person, y geirdaon, ei brofiad a'i sgiliau, cymwysterau, a'i addasrwydd i weithio a chael cyswllt rheolaidd â'r plant.
- Manylion llawn unrhyw ymchwiliadau i gwynion / ymchwiliadau disgyblaethol ac achosion a glywyd
- Mae'n bwysig gwirio drwy eich Ffeiliau Staff yn gyson i wneud yn siŵr fod yr holl waith papur angenrheidiol wedi ei gynnwys.

**Goruchwylion ac Arfarniadau**
Mae rheoli perfformiad yn effeithiol yn gwneud yn sicr y gellir cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'ch cymuned leol, gan alluogi'r staff i ddeall y disgwyliadau, pennu deilliannau, amcanion, sut mae'r monitro'n mynd yn ei fallen, adlewyrchu ar berfformiad ac yn cynorthwyo'r gwelliannau sydd i'w gwneud. Mae goruchwylio'n "broses ddwy ffordd, atebol, sy'n cefnodgi, yn cymell ac yn galluogi datblygiad arferion da mewn gweithwyr unigiol yn y maes gofal cymdeithasol. Canlyniad hyn yw bod y gyfundrefn yn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddo. Mae goruwchlio'n rhan allweddol o reoli perfformiad unigolyn."

Mae arfarnu'n "broses fwy ffurfiol sy'n ymwneud ag ag adolygu perfformiad gweithiwr gofal cymdeithasol dros gyfnod o amser, fel arfer yn flynyddol. Mae'n cynnwys gwerthuso nodau ac amcanion; gwerthuso rôl y swydd; nodi perfformiad cadarnhaol; nodi meysydd y gwelir eu gwella a nodi a chynllunio sut y bydd yr anghenion datblygu'n cael eu diwallu."
(Cyf. 'Canllaw ar Oruchwylio ac Arfarnu Da', Gofal Cymdeithasol Cymru 2017)

Cam rheolaidd, yn dilyn Archwiliadau'r AGC, yw cryfhau systemau rheoli perfformiad yn y Lleoliad Gofal Plant, ac i wneud yn siŵr fod sesiynau goruchwylio ac arfarniad blynyddol yn digwydd yn achos pob aelod o'r staff. Dylai Contract Goruchwylio hefyd fod yn ei le rhwng y Rheolwr Llinell ac aelod o'r staff, un sy'n cytuno ar amlder cyfarfodydd, eu hyd disgwyliedig, cynnwys a'r disgwyliadau gan y ddau barti.

Yn dilyn cyflwyno Archwiliadau ar y Cyd gan AGC ac Estyn, nodwyd mewn rhai archwiliadau fod rheolaeth perfformiad staff sy'n gweithio yn 'elfen addysgol' y gwasanaethau weithiau'n fwy cynhwysfawr nag i'r rhai sy'n gweithio yn yr 'elfen ddi-addysgol', sy'n arwain at argymhellion i sicrhau cysondeb rhwng pob aelod o'r staff.

Os ydych am gefnogaeth neu wybodaeth bellach ynghylch Ffeiliau Staff, Goruchwylion ac Arfarniadau, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol os gwelwch yn dda.

## Parhad y daith i ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol

Felly, fel Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol rydych wedi dod i'r penderfyniad i drosglwyddo a dod yn SCE(Sefydliad Corfforedig Elusennol), ond beth ydych chi'n ei wneud nesaf?

Nid oes yn rhaid i chi fynd drwy'r broses yma ar eich pen eich hun; Mae staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar gael i'ch cynorthwyo drwy'r broses yma. Mewn siroedd lle bydd aelod o'r staff wedi ei ariannu fe allwn ymweld â chi a'ch cefnogi wyneb yn wyneb yn eich Lleoliad. Mewn siroedd lle nad oes staff wedi eu hariannu, gellir rhoi cefnogaeth i aelodau dros y ffôn, drwy e-bost neu hyd yn oed wyneb-yn-wyneb yn un o'r Swyddfeydd Rhanbarthol (Caerdydd, Bae Colwyn neu Cross Hands).

Mae angen i chi gymryd ychydig gamau cyn cyflwyno'ch cais i'r Comisiwn Elusennau:
1. Cytuno ar bwy fydd ar eich Bwrdd o Ymddiriedolwyr.
2. Mae angen i chi wneud yn siŵr fod eich cyfrif Banc / Cymdeithas Adeiladu gyfredol yn addas i SCE ei ddefnyddio.
3. Drafftio'ch cyfansoddiad. Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs samplau o gyfansoddiadau yn barod ar gyfer ein holl aelod-leoliadau.
4. Llunio rhestr o asedau a rhwymedigaethau'r gymdeithas anghorfforedig; caiff y rhain eu trosglwyddo i'r cwmni newydd e.e. cyflogeion, adeiladau, cyfarpar, cyfrifon banc, buddsoddiadau, ariannu drwy grant, contractau gwasanaeth, rhoddwyr a chefnogwyr, yswirwyr, pensiynau.

Yn awr rydych yn barod i gynnal eich cyfarfod cyntaf o dan enw'r cwmni newydd. Bydd angen i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr adolygu'r cyfansoddiad, ei gytuno a'i lofnodi. Y mae hefyd yn amser da iawn i gytuno pwy fydd yn cwblhau pa rolau h.y. cwblhau'r cais i'r Comisiwn Elusennau ac erbyn pryd.
Rydych yn awr yn barod i gwblhau'r cais ar-lein. Mae gwybodaeth sy'n ofynnol i'w chyflwyno i wneud cais: copi o'ch cyfrifon diweddaraf a'ch cyfansoddiad fel SCE.

Unwaith y bydd y cais wedi ei gyflwyno a'ch bod yn aros i gael eich rhif Elusen, os oes angen i chi ailgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel y cwmni newydd, dyma'r amser i gwblhau'r gwaith papur. Cofiwch, os oes yn rhaid i chi ailgofrestru ag AGC, mae gennych 28 diwrnod i gyflwyno eich gwaith papur o'r diwrnod y gwnaethoch dderbyn eich rhif cofrestru fel SCE.
Gallwch wirio yma i weld a yw hyn yn berthnasol i chi:
https://careinspectorate.wales/guidance-note-charitable-incorporated-organisation-cio-status

Cofiwch nad oes yn rhaid ichi fynd drwy'r broses yma ar eich pen eich hun: mae staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn barod i'ch cynorthwyo chi, fel aelodau, drwy'r broses hon.

Yn ein rhifyn nesaf o'r Bont, byddwn yn edrych ar gamau olaf y daith. Ond os na allwch aros tan hynny, a'ch bod yn barod i ddechrau'r daith yn awr, mae croeso i chi gysylltu â'ch swyddfa leol.

www.clybiauplantcymru.org

# Crefft Hydrefol

## Her Hydrefol

Her Hydrefol: mewn byd lle mae angen i ni geisio bod yn fwy ymwybodol o'r gwastraff yr ydym yn ei gynhyrchu a'r effaith yr ydym yn ei chael ar yr amgylchedd, pa gamau a allwch chi eu cymryd yn eich Clybiau Allysgol i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu? Dyma rai syniadau ar ffyrdd i 'uwchgylchu' potel blasting. Pa syniadau sydd gennych chi? Anfonwch eich lluniau atom yn info@clybiauplantcymru.org





### Tai Tylwyth Teg Poteli Plastig

**Beth fyddwch eu hangen:**

- Poteli Plastig
- Sisyrnau / cyllell grefft (a rhywfaint o help gan oedolion)
- Marcwyr parhaol lliwgar
- Sticeri

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Clean the bottles out thoroughly and leave to dry.
2. Get the children to draw on their doors and windows and with adult help cut these out.
3. Allow the children to decorate their 'fairy' houses. You can also use the plastic from the bottles to make and decorate wings for dolls, affix to dolls using pipe cleaners.

### Gemwaith plastig tawdd



**Bydd arnoch angen:**

- Poteli plastig PET neu unrhyw blasting PET
- Marcwyr parhaol lliwgar
- Ffwrn, wedi ei roi ymlaen ar farc canolig/isel
- Siswrn
- Dysgl bobi wedi'i gorchuddio â memrwn
- Ebill swyddfa
- Darn o linyn

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Glanhau a sychu'r poteli.
2. Torri'r poteli'n siapiau, tua maint cledr eich llaw.
3. Defnyddio'r marcwyr parhaol i addurno'r plastig.
4. Gwnewch dyllau o gwmpas yr ymylon, ac rydych yn barod i grebachu.
5. Gosodwch eich siapiau yn y ffwrn a gwyliwch wrth i'r plastig grebachu a newid siâp; dim ond munud neu ddau a gymer.
6. Tynnwch nhw allan o'r ffwrn, bydd agor y ffenestri efallai'n help i gael gwared â'r arogl plastig.
7. Wedi iddynt oeri, cymerwch linyn a dyna chi â'ch gemwaith! Gallech hefyd roi cynnig ar wellt plastig.



### Ysbrydion Poteli Llaeth

**Beth fyddwch eu hangen:**

- Poteli llaeth
- Marcwyr parhaol
- Goleuadau addurn (rhai batri), ffyn golau neu ganhwyllau dysgl (*tea lights*).

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Glanhewch y poteli llaeth o'u tu mewn yn drwyadl a'u sychu.
2. Defnyddiwch y peniau marcio i wneud lluniadau o wyneb.
3. Naill ai llenwch nhw â dŵr ac ychwanegu ffon olau neu torrwch dwll bychan ar waelod y poteli llaeth i osod y goleuadau addurn i mewn iddynt.

## Yn Cyflwyno Cornel Arddio Georgie!

### Malu Pwmpenni!

I'r rhai ohonoch sy'n tyfu'ch pwmpenni eich hunain, ffordd wych o ddefnyddio'r rhai yr ydych wedi'u tyfu yw creu Llosgfynydd o bwmpen; poitshlyd, tymhorol a llawn hwyl.

**Beth fyddwch eu hangen:**

- Pwmpen â'r pen wedi'i dorri i ffwrdd a'r tu mewn wedi ei wagio allan
- Finegr
- Hylif golchi llestri
- Bwydliw
- Soda pobi

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

- Arllwyswch y finegr i mewn gan ei lenwi hyd at ei hanner
- Ychwanegwch hylif golchi llestri ac unrhyw fwydliw
- Cymysgwch
- Ychwanegwch bowdr pobi a gwyliwch y llanast!

Os ydych yn teimlo'n greadigol iawn ceisiwch gerfio wyneb a thybed beth ddaw o hyn!

Hoffem weld darluniau o'ch creadigaethau; anfonwch nhw i membership@clybiauplantcymru.org



### Barod Aros Araf!

Cynhaliwyd Pencampwriaethau Rasio Malwod y Byd ym mis Gorffennaf, a thros 200 o falwod yn cymryd rhan. Pan na chrëwch chi eich ras falwod eich hun yn y clwb?

Dechreuwch drwy farcio llwybr â llinellau neu gylchoedd. Yna, gan ddefnyddio sticeri, gwahaniaethwch y malwod ag enwau neu rifau. Gallwch greu eich Grand National eich hun! Cofiwch longyfarch eich enillwyr â deilen hyfryd werdd ar ddiwedd y ras.

Gallwch weld mwy o wybodaeth, ac enillydd eleni, Sammy, ar y wefan http://www.snailracing.net/

